

CLONC

golygydd@clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



Rhifyn 256 - 50c
Medi 2007

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Llyfr
Twynog
ar werth



Lluniau
Eisteddfod
Ruddem



Tudalen 20

Dim Post,
Dim
Cymraeg!



Tudalen 18

Enillydd y Fedal Ryddiaith



Ioan Wyn Evans o Gaerfyrddin (Y Mans, Llambed gynt) oedd enillydd poblogaidd Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan eleni, am ysgrifennu Erthygl Bortread. Roedd pawb yn hapus iawn i weld wyneb cyfarwydd yn sefyll adeg y seremoni yn yr eisteddfod.

Y Gweinidog Amaethyddiaeth



Elin Jones AC (Tynllyn, Llanwnnen gynt) yw'r Gweinidog Amaeth newydd yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Gwelir hi yma yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd. Dymniadau gorau iddi gyda'r swydd cyfrifol hon a diolch iddi am gefnogi'r sioeau amaethyddol lleol dros yr haf.

Pwy yw pwy?

Golygyddion:

Medi Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Hydref Elaine Davies, Pennant, Alltyblaca 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,
Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan

Gohebwyr Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Iorwerth Evans, Greenwell 493484
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamlwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Twynog Davies, Frondolau, Llambled 422880
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Beth yw beth?

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipyddion Nia Wyn, Maesglas 480015
Joy Lake, Llambled

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro:

Megan Jones 23 Stryd Fawr, Llambled 423410
Guto Jones 36-38, Pendre, Aberteifi 01239 621828

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

• Mae rhannau o Clonc ar y we ar safle Cymru'r Byd y BBC:

www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc

• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.

• Ewch a'ch newyddion at eich gohebydd lleol.

• Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.

• Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk

• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.

• Croesawn luniau digidol ar ddis neu CD, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk.

• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

Siprys

Heb symud gyda'r oes!!

Gwraig leol yn gyrru drwy Bentrebach am Llambed, car yn dod i'w chwrdd ac yn fflachio'i olau. "Dwy i ddim yn nabod hwnna" meddyliodd. Daeth car arall i'w chwrdd a gwneud yr un peth. "Ma' hwnna'n hollol ddiarth i fi", meddyliodd. Wedi i'r un peth ddigwydd iddi dair neu bedair o weithiau, a phob un yn fflachio'i olau, meddyliodd fod rhywbeth yn bod ar bart blaen ei char. Pan welodd hi heddwas ar ochr yr hewl, dyma hi'n aros. "Esgusodwch fi Mr Plismon, oes rhywbeth yn bod ar fy nghar i. Mae sawl car wedi fflachio'i olau arna i". Gwenodd yr heddwas arni ac meddai "O cewch o ma fenyw!", ac fe ddechreuodd chwerthin.

Tybed pryd ddeallodd hi ei bod wedi methu 'deall yr arwyddion'!!.

Canlyniadau.

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod yn llwyddiannus yn yr arholiadau. Ac i'r rhai na chawsant y graddau a ddymunent, peidiwch â gwneud dim byd ar frys, cofiwch fod rhai o arweinyddion mwyaf ein gwlad wedi bod yn fethiant mewn arholiad. Pwyll sydd angen.

Scandal Vale.

Diau fod ffermwyr wedi cael llond bol ar y sylw roddwyd i'r anifeiliaid yn Skanda Vale. Pan ddangoswyd llun o'r tarw Jersey gafodd ei ladd yn ddiweddar, dywedodd ffermwr lleol y buasai'r milfeddyg wedi ei roi i gysgu ers tro ac y buasai'r RSPCA wedi cymeryd camau cyfreithiol i sicrhau hyn.

Na, nid yw gweinyddu rheolau yn orchwyl syml o bell ffordd.

Ble mae'r Brawd Mawr!

Ffermwr yn nalgylch Clonc wedi mynd ati i gymhennu tipyn o gwmpas y fferm ac wedi cynnau tân go fawr i gael gwared ar dipyn o sbwriel. Roedd yn dân gweddol fawr ond nid oedd yn gofidio gan fod y fferm yn bell o bobman a neb lawer yn medru gweld. Syndod felly oedd cael dyn wrth y drws drannoeth yn ei gyhuddo o losgi deunydd anghyfreithlon. "Naddo - dim fi", oedd ei ymateb, ond buan y sylweddolodd fod dim gwerth amau gan i'r dyn ddangos lluniau dynnwyd o loeren iddo. Ydy mae'r 'Brawd Mawr' yn ein gwyllo.

Gyda llaw, yr unig beth sydd gan ffermwyr yr hawl i'w losgi ar y fferm yw 'llysiau'r gingroen' ragwort. Nid yw'n gyfreithlon hyd yn oed i symud hwn o'ch tir. Mae'n rhaid ei losgi.

Pob hwyl am y tro.

Cloncyn

Cystadleuaeth Sticer Car CLONC

Braf gweld llawer o geir yr ardal yn arddangos y sticeri. Llauer o bobl felly â'r cyfle i ennill £10 bob mis am wneud hynny yn ystod eleni, blwyddyn dathlu pen-blwydd Clonc yn chwarter canrif.

Llongyfarchiadau i Alan ac Ann Jones, Annedd Wen, Llanwnnen ar ennill £10 yn y rhifyn diwethaf.

Rhif car yr enillydd Iwcus y mis hwn yw **CV04 KBX**. Mae gennych ddeg diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhifyn hwn i hawlio'ch gwobr. Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes cyn gynted â phosib.

Dyddiadur



MEDI

- 8 Ffair Ram ar gae pentref Cwmann.
- 9 Cymanfa Dathlu 40 oed Eisteddfod Rhys Thomas James yng Nghapel Soar am 8y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 10 Noson gyntaf tymor newydd Merched y Wawr Llambled yn Siloh am 7:30y.h.
- 14-16 Pen-wythnos o ddathlu Ysgol Llanwenog yn 140 oed.
- 15 Cyngerdd Mawreddog mewn pabell yng nghanol Drefach [dathliadau Ysgol Llanwenog] gyda Gwenda a Gaynor Owen; Gillian Elisa; Ifan Lloyd; Ifan Griffiths; Deiniol Wyn; Gwawr ac Einir; Coda a John Evans yn arwain y noson.
- 23 Cymanfa Ganu 100 oed yng Nghapel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- 24 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa, Llambled am 7y.h.
- 25 Cwrdd Diolchgarwch Capel Brynhafod, Gorsgoch am 7y.h. gyda'r Parch Gareth Morris, Drefach Felindre.
- 25 Cangen NSPCC Llanybydder yn cynnal Gyrfa Chwist yng Nghlwb Rygbi, Llanybydder am 8y.h.
- 28 Cyngerdd Mawreddog o dan nawdd Pwyllgor y Sioe Frenhinol, Apêl Ceredigion 2010 yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth - artistiaid - Côr Godre'r Aran, Rhys Meirion a Leah Marian Jones. Tocynnau ar gael drwy ffonio 01974 298205.

HYDREF

- 1 Cwrdd Diolchgarwch Bethel, Silian am 7y.h.
- 4 Cwrdd Diolchgarwch Seion, Cwrtnewydd am 7y.h.
- 5 Noson Moes a Phryn yn neuadd Seion, Cwrtnewydd dan nawdd Urdd y Benywod, Capel-y-Bryn am 7:30y.h.
- 6 Noson Caws a Gwin yn Neuadd Sant Iago Cwmann - elw at Sefydliad Prydeinig y Galon.
- 10 Sioe Ffasiwn Ysgol y Dderi - Siop duet yn Neuadd Coleg Llambled.
- 11 Cwrdd Diolchgarwch Caersalem, Parcyrrhos am 7y.h.
- 12 Cyngerdd gan Lleisiau'r Werin ac eraill yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd am 7:30y.h. dan nawdd Pwyllgor Lles Llanwenog.
- 17 Cwrdd Diolchgarwch Aberduar, Llanybydder am 2y.p. a 7y.h.
- 18 Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h. gyda'r Parch Eileen Davies, Llanllwni yn pregethu.
- 21 Cyngerdd Côr Merched Corisma yng Nghapel Bethel Parcyrrhos am 7pm.
- 25 Lansio llyfr newydd Twynog Davies yn y Grannell, Llanwnnen.
- 28 Cymanfa Ganu Brenhines C.Ff.I. Ceredigion yng Nghapel Beulah ger Castell Newydd Emlyn. Arweinydd Dai Jones, Llanilar.

TACHWEDD

- 1 - 3 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 3 Cyngerdd gan Gôr Godre'r Aran yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30y.h.
- 10 Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

O fis i fis gan Yvonne Davies



Medi

Dros y blynyddoedd mae rhifyn Mis Medi wedi dod ag adroddiadau a lluniau o'r sioeau lleol a Sioe Llanellwedd, ynghyd ag Eisteddfodau Rhys Thomas James, Pantyfedwen a'r Genedlaethol. Ond fe fu yna eithriad ym 1984; gan fod 3 rhifyn 'Clonc' wedi eu hargraffu yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ddechrau Awst, ni chaed rhifyn ym Mis Medi y flwyddyn honno.

1982 – Llanybydder: Fandaliaid yn llosgi'r pafiliwn chwaraeon yn Heol y Gaer. Cwrtnewydd: Croesawu Tydfor Jenkins yn ôl o'r Falklands. Cwmman: Symud y gofologlofn o sgwâr Cwmman i'w safle presennol.

1983 – Cwmsychpant: Jack Davies, Rallt, yn derbyn medal am wasanaeth oes (49 mlynedd) i amaethyddiaeth, yn Sioe Llanellwedd. Llanwnnen: Picton Jones yn ennill 12 cyntaf, 9 ail, 2 trydydd, ail orau yn y Sioe, cwpan am y 'Best Large', a Medal Efydd yn Sioe Llanellwedd. Eisteddfod: Côr plant yr Ardal yn canu yn Eisteddfod Llangefni i groesawi'r Eisteddfod i Lanbed ym 1984. Timothy Evans yn cael teitl 'Pavarotti'r Ail' ar faes yr un Eisteddfod.

1984- Awst. Dydd Mawrth yr Eisteddfod. 'Clonc' yn sgwrsio â Geoff Charles. Cymwynaswr Bro – Hanes Ffos Davies. Llun y merched fu'n smwddio dillad yr Orsedd. Portread o Rosanne Reeves – ffrind i Siwpered a Dai Tecsas. Adolygiadau di-ri. Teyrngedau i D.Jacob Davies a J. R. Evans. Dydd Iau. 'Clonc' yn sgwrsio â'r Archdderwydd W.J. Gruffydd.

John Roderick Rees yn ennill y Goron. 'Rosalind' - hanes Rosalind Lloyd. Cymwynaswyr Bro – Dan Jenkins, Llancrws. Modryb Eiddwen James - Helen Richards, Illinois (90 oed) Arweinydd y 'Cymry ar Wasgar'. Dydd Sadwrn T. Llew Jones – o'r Babell Llen. Cymwynaswr Bro – Ted Morgan. Pasiant yr Ysgolion Meithrin 'Y Cardi Bach'. Gillian Elisa. Llun – merch ar ben ysgol, yn sownd yn y Pafiliwn!! Lluniau'n edrych nôl dros yr wythnos.

1985 - Llanwenog: Gŵyl flodau ac arddangosfa yn yr Eglwys i ddathlu 500 mlwyddiant y tŵr a godwyd yn 1485 i gofio am fuddugoliaeth y Tuduriaid ar Faes Bosworth. Llangybi: Graham Williams yn mynd ar ei feic am 1000 o filltiroedd i godi arian i Ysgol y Dderi, ac i genades ifanc yn y Swdan.

1986 – Llanbed: Gwisg newydd i blant Ysgol Ffynnonbedr. Siop ddillad 'Bon Marche' yn cau. Llanybydder. Daniel Chandler yn ennill cystadleuaeth y 'Sunday Times' - creu meddalwedd i gyfrifiaduron.

1987 – Canmlwyddiant Sioe Llanbed – adroddiad a lluniau. Yr Urdd yn gwahodd yr Ŵyl Ddrama Genedlaethol i Ddyffryn Aeron a'r Fro. Gorsgoch: Mrs Beryl Llewelyn yn ymddeol fel Prifathrawes yr Ysgol.

1988 – Llanbed: Eisteddfod Rhys Thomas James yn 21 oed. Islwyn Rees, Greenfield Tee., yn cynrychioli Cymru yn y 'Naid Polyn' mewn mabolgampau yn Oslo. Alltyblacca: Mrs Eunice Williams, Tegfryn yn ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Llanbed ar 'Hanes Capel Esgerdawe'. Llanwnnen: Mrs Alice Davies yn ymddeol o'i swydd fel Prifathrawes.

1989 Llanbed: Dafydd Iwan yn dathlu ei ben-blwydd yn y Clwb Rygbi – ar ôl Cyngerdd agoriadol Eisteddfod Rhys Thomas James. Llanybydder: Canolfan gêm rhyngwladol 'Coetio' rhwng Cymru a'r Alban; tîm Cymru'n fuddugol.

1990 – Llanbed: Rhian Jones, Gerlan yn ennill y Gadair dan 25 yn Eisteddfod Rhys Thomas James. Cwmman: Miss Gwenda Thomas yn ymddeol fel athrawes yn ysgol Coedmor. Lynda Jones, Coedmor Hall yn Frenhines y 3 Sir yng Nghaerfyrddin.

1991 – Llangybi: Agoriad Swyddogol Tafarn yr Hen Ysgol. Llanbed: Sefydliad y Merched yn 75 oed. Cwmman: Pwyllgor y Pentref yn ailsefydlu 'Ffair Ram'.



Nia a Mary yn gwerthu tanysgrifiadau llyfr 'Cymeriadau Bro' gan Twynog Davies yn Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.

Cymeriadau Bro gan Twynog Davies



CLONC yn cyhoeddi llyfr newydd

Ers deng mlynedd bellach mae Twynog Davies wedi bod yn cyfrannu colofn boblogaidd i Clonc sef y 'Cymeriadau Bro'. Eleni gan fod Clonc yn dathlu pen-blwydd yn 25 oed cyhoeddir llyfr yn cynnwys yr holl gymeriadau gan gynnwys portread o Twynog ei hun gan John Williams, Llanwnnen. Dyma nhw yn y drefn yr ymddangoswyd yn Clonc. Ydych chi'n cofio darllen amdany'n nhw?

Dr Islwyn Ffowc Elis, Rhodfa Glynhegog, Llambled
Mrs Ray Davies, Crug, Llanybydder
Mr Andrew Jones, Pentresioŷn, Pentrebach
Mr Glyn Ifans, Gwynon, Llambled
Mrs Janet Cooper-Davies, Ynysfaig, Stryd Newydd, Llambled
Mr Haydn Lewis, Talgrwn, Llanwnnen
Mrs Sulwen Morgan, Rhodfa Glynhegog, Llambled
Y Canon T. R. Evans, 60 Penbryn, Llambled
Mrs Anita Williams, Gwêl y coed, Cwmman
Mr Timothy Evans, Glynrhosyn, Penbryn, Llambled
Mr Glan Evans, Nantyffin, Llambled
Mr Sam Morgan, Penparc, Silian
Y Parch. T. Glenfil Jones, Hafan, Llanybydder
Miss Elin Jones, Tynllyn, Llanwnnen
Mrs Nesta Harries, 4 Y Deri, Heol y Gogledd, Llambled
Mr Delfryn James, Y Fron, Stryd y Bont, Llambled
Mrs Nansi Jones, Brynheulwen, Heol y Bryn, Llambled
Y Parch Wyn Vittle, Llanllwni
Mr Danny Davies, Frondeg, Llanybydder
Mrs Bethan Phillips, Castelln, Llambled
Mr Dafydd Mills Ffynnonfair Pentrebach a Mr Rhys Williams Bayliu Cellan

Mr Daniel Davies, Y Gilfach, Heol y Gogledd, Llambled
Mr Andrew Jones, Glanhathren, Cwmman
Mrs Eleri Davies, Pentre, Llanfair Clydogau
a Mrs Margaret Jones, Glanhelen, Heol y Gogledd, Llambled
Mr Dennis Jones, Bontnewydd, Llanybydder
Mr Dylan Iorwerth, Pen y Nant, Llanwnnen
Mr Sion Jenkins, Cathal, Cwrtnewydd
Mr Caradog Jones, Coed y Glyn, Ffordd Glynhegog, Llambled
Mr John Jones, 12 Peterwell Terrace, Llambled
Miss Mattie Evans, Llwydfaes Cribyn
Mr Dylan Wyn, Y Fron, Llanybydder
Mr Dai Davies, Vader, Heol yr Orsaf, Llambled
Mrs Irene Williams, Cae'r Nant, Cwmman
Cwmni W.D. Lewis a'i Fab, Stryd y Bont, Llambled
Mr David Davies, Gwarffynnon, Silian
Mr Aneurin Rees Davies, Tynffynnon, Maestir
Mrs Iona Trefor-Jones, Ty-nant, Cwmman
Mr Dewi Davies, Glanafon Llanllwni
Mr J. Dilwyn Williams, Felinfach
Mr Kees Huysmans, Yr Hen Siop, Tregroes
Mr David Morgan, Haulfryn, Cwmman
Mrs Aerwen Griffiths, Pengarn, Llanfair Clydogau
Mr Harold Williams, Tŷ Howell, Cwmman

Gwahoddir darllenwyr i danysgrifio i'r llyfr am **£4.50** yn unig a chynnwys eu henwau ar restr tanysgrifwyr yng nghefn y llyfr. **Rhaid derbyn yr arian erbyn 24 Medi 2007.**

Gwerthir y llyfrau wedyn yn y siopau am £4.95 ar gyfer y farchnad Nadolig. Cynhelir Noson Lansio Yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen ar Nos Iau 25 Hydref lle y dosberthir y llyfrau i'r tanysgrifwyr.

Os am danysgrifio, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd gyda'r tâl at Yr Ysgrifenyddes, Maesglas, Drefach, LLANYBYDDER, SA40 9QL.

Hoffwn archebu _____ copi o Cymeriadau Bro @ £4.50

Amgaeaf dâl am £ _____

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

_____ Rhif Ffon: _____

Llanfair Clydogau

Ffair y pentref

Cynhaliwyd y ffair ar gae gwastad Llanfair Fawr ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 14 ddeg ar ddiwrnod neilltuol o braf ynghanol tywydd glawog. Roedd llawer o stondinau yno yn gwerthu amrywiaeth o bethau o jam cartref a llysiau i lyfrau a hen bethau. Cafwyd hwyl fawr gan y plant yn chwarae gemau a chael eu hwynebaw wedi eu paentio. Roedd gemau hefyd i'r oedolion e.e.tynnu paledau a 'tug o war', gyda sawl tîm yn cymeryd rhan. Ymhlith y pethau diddorol oedd arddangosfa o hen dractorau ac anifeiliaid anwes.

Yn y neuadd roedd cyfle i gael paned o de neu goffi gyda sconiau, mefus a hufen hefyd ffynnon siocled gyda mefus a marshmalo. Gorfod gohirio y ras hwyaid gan fod gormod o ddŵr yn yr afonydd Teifi a'r Clywedog. Pan ddaeth y ffair i ben roedd gŵyl gwrw a barbicw i gadw'r noson yn hwylus gyda disco yn y neuadd.

Llywyddion y dydd oedd Lesley a June Williams, Solihulla Parcneuadd. Diolch iddynt am eu cyfraniad hael at gronfa'r neuadd. Cafwyd diwrnod arbennig o lwyddiannus gyda llawer o bobol wedi troi i fyny. Fel arfer, does dim llwyddiant heb lawer o waith caled. Diolch o galon i Lesley a Glenys, Laura, Lynda a Laurence Quelch a Jan a Mark a fu yn gyfrifol am drefnu y stondinau a'r bar, casgenni o wahanol gwrw a'r seidr. Diolch i Eleri, Eleanor, Iris, Liz ag Aerwen a fu yn coginio y sconiau a rhedeg y neuadd am y prynhawn. Ac i Eleri hefyd am y ffynnon siocled.

Diolch i Arwyn am fynd i hol y byrddau ac i ffrindiau Glenys a Lesley am redeg y bar ac i bawb arall a fu yn helpu mewn unrhyw ffordd i roi pethau yn barod ar y cae, clirio ar ddiwedd y dydd a choginio

i'r barbicw.

Gwnaethpwyd dros ddwy fil a hanner o arian tuag at gronfa ail doi y neuadd yn cynnwys hefyd cyfraniad hael oddi wrth Sally ac Alan Leech er cof am dad Sally Mr Dick Rubbigge a fu farw yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Trist iawn oedd pawb yn yr ardal o glywed am farwolaeth sydyn John Hall, Cnwcsych. Roedd John yn ŵr mwyn bonheddig bob amser, gyda diddordeb mawr mewn cadw gwenyn. Bu yn gadeirydd Cymdeithas Cadw Gwenyn Llanbedd a roedd yn mynd yn gyson i rannu ei wybodaeth mewn sioeau yn Llanelwedd ac yn y sioe Frenhinol yn Stoneleigh yn y canoldir. Roedd yn aelod o Glwb Golff Cilgwyn a chwaraeai yn gyson gyda'r Veterans. Roedd hefyd yn aelod selog o Eglwys Sant Mair ac yn dala swydd trysorydd. Bydd y golled yn enfawr mewn cynulleidfach fach. Claddwyd John ym mynwent yr eglwys gyda'i wraig a fu farw rai blynnyddoedd yn ôl.

Estynnwn gydymdeimlad ag Eleri ac Arwyn Davies, Pentre ar golli eu chwaer yng nghyfraith Mrs Ann Williams, Beuliau, Cellan.

Hefyd i Peter Brown O'r Diwedd ar golli ei fam yn ddiweddar.

Trist oedd clywed am farwolaeth Gwilym Williams Maeslyn Llangybi ar ôl salwch hir. Roedd Gwilym wedi ei eni a'i fagu yn fferm Penlan Llanfair ac ef oedd yr olaf o feibion yr hen deulu. Cydymdeimlwn yn fawr a Rowena ei wraig a'i fab Lynne.

Cydymdeimlwn hefyd a Sally ac Alan Leech ar farwolaeth tad Sally, Mr Dick Rubbigge. Roedd newydd gael parti i ddathlu ei naw deg oed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Roy a Judy Jenkins, Llys Awel ar ddathlu eu priodas arian. Roedd eu meibion, Lewis a Philip hefyd yn dathlu eu pen-blwydd tua'r un adeg – Lewis yn 21 a Philip yn 18. Cafwyd parti yn y Drovers i ddathlu'r achlysuron arbennig yma – noson i'w chofio. Llongyfarchiadau i Lewis hefyd ar gwblhau ei gwrs Coleg, ac ennill ei radd mewn peirianeg drydanol.

Un arall o fechgyn yr ardal i brofi llwyddiant yn ddiweddar yw Ian O'Connor, Buarth yr oen a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth gneifio a drefnwyd gan fudiad y Ffermwyr Ieuanc yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf. Da iawn ti.

Dymunwn ben-blwydd hapus i Mrs Ray Davies, Peronne ar ddathlu ei phen blwydd yn 80 oed. Ysgrifennodd cyfaill iddi y darn canlynol wrth iddi ddathlu pen blwydd go arbennig.:-

Dwi'n caru bywyd

Heddiw Arglwydd, dwi'n 80 oed, diolchaf ar fy neulin –
Ond carwn eto Arglwydd flasu 81.
Dwi am i'r hwyl a'r sbri barhau -
Ymlaen a'r sbort hyd 82.
Mynd a mynd i bobman y carwn i -
Ac ymlaen eto i 83.
'Mi dafia maich oddi ar fy ngwar'
A byw yn rhydd hyd 84.
Bod yn wrol, er gwaetha'r limp –
O am nerth i gyrraedd 85.
Ac, o mi fydd 'na sgrech
'Rôl cyrraedd 86.
Yn annwyl iawn i mi yw Gwalia a'r hen iaith
Llefaru hi y carwn pan rwy'n 87.
Melysach eto fydd y ffrwyth -
Ond i mi aeddfedu i 88.
Wedyn, ymdawelu falle, ie? Ond taw –
Ymlaen a fi hyd gyrraedd 89.
Un peth arall lôr, cais bach, un eitha' teg.
Os mae'n iawn a thi, dwi am fyw ar ôl 90.

Gwellhad buan

Bu Mr Elgan Jones, Tremavon yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n dda ei weld adref, ac yn gwella. Mae Mrs Ray Davies, Peronne hefyd newydd dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddi am adferiad llwyr a buan.

Arddangosfa a Ffair Grefftau

Cynhaliwyd arddangosfa a ffair grefftau gan aelodau'r Clwb Crefftiau yn Neuadd Bro Fana ar ddydd Sadwrn yr 28ain o Orffennaf. Cafwyd diwrnod llwyddiannus gydag amrywiaeth o waith llaw ar gael. Yn ogystal â'r ffair, roedd aelodau'r Clwb wedi trefnu raffl i godi arian tuag at brynu offer i'r parc chwarae yn y pentref.

Carnifal a Mabolgampau

Cynhaliwyd y Carnifal a Mabolgampau blyneddol ar Barc Bro Fana ar ddydd Sadwrn, yr 11eg o Awst. Cafwyd diwrnod braf, gyda'r plant, a'r oedolion yn mwynhau'r cystadlu. Yn ogystal â'r carnifal, roedd yna hefyd fabolgampau i'r plant a'r oedolion, gyda gêm bêl-droed i gloi'r

Ffarmers

gweithgareddau. Llywyddion y dydd oedd Delyth ac Aled, Waungilwen ger Drefach Felindre. Mae Delyth yn adnabyddus yn yr ardal fel yr ieuengaf o ferched Tanyresgair, ac mi fu yn weithgar iawn ar Bwyllgor y Carnifal a nifer o fudiadau arall yn yr ardal am flynyddoedd, ac roedd yn hyfryd cael ei chwmmi ynghyd â'r teulu ar y dydd. Enillwyd Cwpan Coffa Elin Thomas eleni gan Lisa Jones, Swyn y Nant. Enillwyd Cwpan Her Clwb y Groesffordd eleni oedd Eirwyn a Carwen Richards, Cwmcelyn.

Neuadd Bro Fana

Mae pwyllgor Neuadd Bro Fana yn brys yn paratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer gaeaf 2007 / 2008. Byddwn yn croesawu Côr Godre'r Aran yn ôl i'r Neuadd ar Nos Sadwrn y 3ydd o Dachwedd, gyda Mr a Mrs Raymond Roberts, Gelli Aur, Parcyrrhos yn Llywyddion y noson. Byddwn yn croesawu 'Lleisiau'r Werin' o dan arweinyddiaeth Mrs Elonwy Davies, Llanybydder i'r 'Cyngerdd a Noson o Garolau' a gynhelir ar y Nos Sul cyn y Nadolig, sef y 23ain o Ragfyr. Mae'r noson yma yn gyfle i'r eglwys a chapeli'r ardal ymuno i gynnal gwasanaeth o fawl, a dathlu genedigaeth yr Iesu. Bydd Cerddorfa Siambr Llambled yn perfformio yn y Neuadd ar brynhawn dydd Sul, y 27ain o Ionawr 2008. Cafwyd cyngerdd arbennig yn eu cwmni ar ddechrau 2007, ac edrychwn ymlaen i'w croesawi eto. Mae trefniadau ar gyfer nifer o ddigwyddiadau arall hefyd i'w cwblhau, ac fe'u cyhoeddir yn ystod y misoedd nesaf. Gellir hefyd weld manylion ar y wefan gymunedol www.ffmpegers.org

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Cyhoeddus Blyneddol yn y Neuadd ar Nos Fawrth, y 9fed o Hydref am 8.30 y.h. Estynnir croeso cynnes i drigolion yr ardal i fynychu'r cyfarfod.

Cyrrddau Diolchgarwch

Bydd Eglwys y Methodistiaid, Saron, Cwm Twrch yn cynnal Cwrdd Diolchgarwch ar Nos Iau, y 13eg o Fedi am 7 o'r gloch, gyda'r Parchedig Eileen Davies, Llanllwni yn gwasanaethu. Bydd yr Oedfa Ddiolchgarwch ym Methel, Cwm Pedol ar Nos Fercher y 26ain o Fedi am 6.30 gyda'r Parchedig Cynwil Williams, Caerdydd yn gwasanaethu. Ar Nos Fawrth yr 2ail o Hydref, cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Salem, Caeo am 7 y.h. gyda'r Parchedig Cen Llwyd, Talgarreg.

Salem fydd lleoliad Cymanfa Undebol Dyffryn Cothi eleni hefyd, a gynhelir ar Ddydd Sul y 7fed o Hydref. Bydd un oedfa yn unig yn cychwyn am 2 o'r gloch, gyda'r Parchedig Lynn Rees, Rhydaman yn arwain. Cynhelir rihysal ar gyfer y Gymanfa ar Nos Sul, yr 16eg o Fedi yng Nghapel Shiloh, Llansawel am 6 o'r gloch gyda Mrs Elonwy Davies, Llanybydder yn arwain.

Clwb Clonc

£5 y flwyddyn

Mis Medi 2007

£25 rhif 5
Teresa Brain, Greenhill,
Drefach

£20 rhif 73
Emyr Davies, 151
Campion Drive, Bryste

£15 rhif 118
Mrs Gwyneth Evans,
Gwladeithe, Pumsaint

£10 rhif 46
Eifion Davies, Afallon,
Drefach

£10 rhif 86
Mrs Betty Davies,
Beilibach, Llanllwni

£10 rhif 234
Mrs Avril Jones, Tan-y-
bryn, Llanwnnen

*Diolch yn fawr i bawb
am dalu.*

*Mwy o aelodau eleni
eto.*

*Felly, mwy o wobrau
bob mis.*

Llanllwni

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhys a Louise, Brynmyrddin ar enedigaeth Ellie Haf ar ddiwedd mis Mehefin. Wŷres gyntaf i Phil Thomas, Llysalaw. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Gwellhad Buan

Dymuniadau da i Emrys Williams, 30 Bryndulais ar ôl ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Evan David Jones, Fferm Talardd ar gyrraedd ei 90 oed ar ddechrau'r mis yma. Mae ei holl ffrindiau a chymdogion yn dymuno'n dda iddo gael iechyd am flynyddoedd eto.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Hywel a Wendy Davies, 14 Bryndulais ar ddathlu eu Priodas Arian.

Noson Goffi

Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn dechrau mis Awst yng Ngerddi Norwood dan nawdd Eglwys Llanllwni. Y llywyddion oedd Lena Thomas, Helen a Lynwen ac yr oedd yn bleser cael eu presenoldeb a'u cyfraniad haelionus. Gwnaed elw dros £1400 tuag at goffrau'r eglwys ac y mae diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

Diolch

Dymuna Ivy Aberdauddwr ddiolch i bawb a ddanfonodd cardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar achlysur ei phen blwydd yn 70 ar Orffennaf 12fed. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Rhys a Louise, Brynmyrddin ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau a dderbyniwyd ganddynt ar ôl genedigaeth Ellie Haf.

Dymuna Daphne Davies, Dolifor ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau, blodau, anrhegion, galwadau ffôn a'r cyfarchion ar Radio Ceredigion ar achlysur ei phen blwydd yn 70 oed. Hefyd i bawb a ddaeth heibio ac i Wil a'r teulu am drefnu popeth mor gyfrinachol ac am yr help gyda'r te.

Hefyd, dymuna Eric a Tegwen Davies, Neunant ddiolch yn fawr i bawb ar ran Carol am bob dymuniad da, cardiau, ffôn, galwadau a gafodd tra yn cael triniaeth. Y mae'n dda clywed fod Carol yn ymateb i'r driniaeth ac y caiff llwyr wellhad.

Cyngor Bro

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn festri Capel Nonni, Llanllwni. Roedd 7 aelod yn bresennol ynghyd â'r Cynghorydd Sir Fioled Jones.

Croesawodd y Cadeirydd Mr T J Davies yr aelodau i gyd i'r cyfarfod



Yn dilyn Diwrnod o Hwyl Llanllwni a drefnwyd gan yr Ysgol Feithrin a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol, odwyd y swm o £4366.17 sydd yn cynwys £750 a gyflwynwyd gan Marian Jones, Banc Barclays, Cangen Llandysul o dan eu cynllun £ am £. O'r chwith - Meinir Evans, Cadeirydd Ysgol Feithrin a gyflunodd yr arian i Llinos Harries, Ward y Plant, Ysbyty Heath; Sian Harris, Arweinyddes Cylch Meithrin; Nance Davies, Pennaeth Ysgol Llanllwni. Hefyd yn y llun mae Marian Jones, Banc Barclays.

gan roi croeso cynnes i'r clerc newydd – Linda Evans. Diolchwyd i Dewi Davies am ei gyfraniad diflino fel clerc y Cyngor am 37 o flynyddoedd.

Cynigiodd Emrys Evans fod y cofnodion yn iawn ac eiliodd Mr T J Jones.

Materion yn codi:

Cafwyd ymateb oddi wrth Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir ynglyn â safle bws gyferbyn â'r Belle Vue. Penderfynwyd peidio parhau a'r cynlluniau am fod gormod o amodau a chost.

Derbyniwyd ymateb yn ôl o'r Adran Drafnidiaeth yn dweud nad oedd digon o gyllid a'r gael i wella llwybrau ffordd.

Penderfynwyd gofyn am bris contractwyr ar gyfer gwella'r llwybr cyhoeddus o Wig y Wern heibio Goetre allan i'r Mynydd.

Penderfynwyd bod aelodau o'r Cyngor Bro yn mynd i adnewyddu'r ffordd rhwng Felinfach a Bryn. T J Davies, Emrys Evans ac Emyr Jones i ymweld â'r llwybr er mwyn gweld faint o ddefnydd bydd angen i ddod â'r ffordd lan i safon.

Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr i'r Adran Gwasanaethau Stryd yn gofyn iddynt archwilio i weld a oes modd gosod golau stryd ger Dolifor.

Unrhyw Fater Arall:

Dwywedwyd bod angen glanhau draen dŵr ger Ninant Cottage. Penderfynwyd anfon llythyr i'r Adran Prifffyrdd y Cyngor Sir yn gofyn iddynt ymwneud â'r gwaith.

Daeth sylw'r Cyngor bod angen torri'r clawdd sydd ar ben ffordd Pontdulais Cottage. Am fod y clawdd wedi tyfu cymaint maent eu gwneud yn anodd iawn i fynegi'r ffordd fawr yn ddiogel.

Penderfynwyd anfon llythyr i'r Adran Prifffyrdd yn gofyn iddynt anfon llythyr i berchennog y clawdd.

Gwnaeth Mr David Thorne sôn am hen fapiau sy'n dyddio nôl i 1841 ac yn ei feddiant ar hyn o bryd. Cytunwyd bod angen diogeli'r mapiau a'i hadfer. Cynigiodd D Thomas bod David Thorne yn mynd ati i wneud ymholiadau ar gyfer atgyweirio'r mapiau, fe eiliwyd y cynnig gan Mr E Davies.

Cynigiodd y Cadeirydd bod cyfarfodydd Cyngor Bro yn symud i 8:00 o'r gloch o hyn ymlaen. Cytunodd pawb ar hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30y.h.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghapel Nonni ar nos Fawrth, 18fed o Fedi am 7:30y.h.

Graddio

Llongyfarchiadau i Lowri Evans, Rhoswen sydd wedi graddio gyda 2:1 mewn Daearyddiaeth ag Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth a phob lwc iddi wrth fynd ymlaen i wneud ei chwrs dysgu.

Diolch

Dymuna Hywel a Wendy, 13 Bryndulais ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a gawsant ar achlysur eu priodas Aur.

Sioe Llanllwni

Cynhaliwyd Sioe Llanllwni ar ddydd Llun Gŵyl y Banc yng nghae Abercwm. Yn anffodus yr oedd yn amhosibl cynnal y Treialon Cŵn Defaid oherwydd gwaharddiadau ond cafwyd diwrnod ardderchog gyda'r tywydd yn braf a'r dorf yn eang. Cafwyd cystadlu brwd yn nosbarthiadau Garddwriaeth, Ceginio, Ffotograffiaeth ac hefyd Gwartheg ar Fideo yn y Belle Vue gyda'r hwyr. Y llywyddion oedd Mr a Mrs Islwyn Jones, Penlan y Môr, Llanarth ac yr oedd yn dda gweld y ddau yn bresennol.

Gan nad oedd Cŵn Defaid, fe gafwyd atyniadau eraill sef – Mabolgampau i'r plant, Wrestlo!! i rai hŷn a Chastell Bownsio i blant bach. Ceir rhagor o ganlyniadau y mis nesaf efallai.



Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Beca Creamer, Brooklands, am basio Gradd 2 ar y piano gyda anrhydedd. Cafodd Beca farciau llawn yn y theori. Hefyd, llongyfarchiadau i Sioned Douglas, Llwydfedw am basio Gradd 3 ar y piano gydag anrhydedd. Roedd y ddwy ym ymgeisio o dan nawdd Coleg Cerdd Llundain.

Diolch

Dymuna Irene, Gelliwrol ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Ffair Ram

Cynhelir Ffair Ram ar yr 8fed o Fedi yng nghae'r pentref er gwaethaf y cyfyngiadau diweddar. Dewch â chynnyrch i'r babell, mwy nag erioed, er mwyn sicrhau llwyddiant y sioe. Rhaglenni ar gael drwy ffonio 422655.

Cyngerdd Corisma

Bydd cyfle i wrando ar y côr merched newydd hwn am y tro cyntaf mewn cyngerdd yn lleol ar yr 21 Hydref a hynny yng Nghapel Bethel Parcyrhos. Bydd y gyngerdd yn dechrau am saith o'r gloch a'r elw yn mynd tuag at Adran Encoleg Ysbyty Glangwili. Sicrhewch eich tocynnau'n gynnar oddi wrth aelodau'r capel.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau calonnog iawn i Eurion Jones Williams, Cysgod y Pin, Cwmann, ar ei lwyddiant mawr yn y byd cerddorol yn ddiweddar. Yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fflint a'r Cyffiniau cipiodd y wobr gyntaf am yr Unawd Llinynnol o dan 16 oed ond ymhellach derbyniodd yr anrhydedd o gael ei wahodd yn un o'r tri unawdydd gorau o blith yr holl categorïau o offerynwyr o dan 16 oed i gystadlu am y Rhuban Glas.

Llongyfarchiadau iddo am lwyddo mewn arholiad Gradd 8 ar y sothgrwth o dan nawdd y Colegau Cerdd Brenhinol; camp eithriadol yn 15 oed. Chwaraeodd sothgrwth gyda Cherddorfa'r Tair Sir (am yr eildro) yn 'Carmina Burana' Carl Orff yn

Neuadd y Brangwyn, Abertawe ar ddechrau mis Gorffennaf.

Cyfarchion Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Mrs Irene Price, Gelliwrol ar ddathlu pen-blwydd arbennig ac hefyd Mrs Edwards, Ddeunant Hall.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Delia Williams, Fronafon ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yn Llangybi.

Ysbyty

Da deall fod Noel James, Emlyn House a Gwynfil Griffiths, Brynhathren yn gwella ar ôl treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty.

Diolch

Dymuna Phyllis Price, Brynderi, ddiolch am y cardiau, a'r dymuniadau da a phob caredigrwydd a ddangoswyd iddi yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch o galon.

Anrhydedd

Cafodd Dewi Davies, 5 Cwrt Deri y fraint a'r anrhydedd o feirniadu yn adran y defaid yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Llongyfarchiadau i chwi am wneud eich gwaith mor rhagorol.

Dyweddïo

Braf deall fod y brawd a'r chwaer Angela ac Andrew Doyle, Caradog View wedi dyweddïo ar yr un adeg. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Rhys, mab Coranne a Phill, Sibrwd y Coed a briododd allan yn Seland Newydd. Pob lwc i'r pâr ifanc.

Ras yr Wyddfa

Braf oedd gweld Caryl Davies, Brynteg ar y teledu yn cystadlu ar Ras yr Wyddfa o 10 milltir. Caryl oedd yr ieuengaf o'r merched i redeg y ras yma eleni, ac yn gorffen mewn amser da o 2 awr, 8 munud a 8 eiliad, ac yn gorffen yn 28ain o'r Merched. Da iawn Caryl.

Clwb 225 Enillwyr Awst

1. Mrs Lloyd, 14 Heol Hathren, 2. Miss Griffiths, 1 Treherbert, 3. Mr Jones, Tanybryn, 4. Mr G. Jones, Bryndolau, 5. Mr Evans, Llysycoed, 6. Mr Harries, Nantyglyn, 7. Mr & Mrs Kidby, Erwain, Parcyrhos, 8. Mrs Davies, 37 Heol Hathren, 9. Mr Thomas, Maeshelyg, 10. Mr Morgans, Rhydownen.

Clwb "170" Enillwyr Awst

1. Mr Price, Langwm, Llambled 2. Mr Stevens, Capel Iago, Llanybydder, 3. Mr Davies, 2 Nant-y-Glyn, 4. Mr Williams, Bryn-y-Wawr, 5. Mr Lewis, Bronwydd, Llambled, 6. Mr Mason, 4 Treherbert,

7. Mrs Williams, 35 Heol Hathren, 8. Mrs Davies, Brynteify, 9. Mrs Jones, Glanhathren, 10. Mrs Thomas, 1 Heol Hathren.

Clwb "170" Enillwyr Gorffennaf

1. Pat Jones, Glanhathren, 2. Mrs Helen Davies, Tanyresgair, 3. Mrs Heledd Jones, Penrhos, 4. Mr Graham Evans, Felinfach, 5. Mrs Gwenna Evans, Tynnewydd, Barley Mow, 6. Mrs Mary Jones, 40A, Stryd Fawr, Llambled 7. Mrs Bethan Lewis, 18 Heol Hathren, 8. Miss Kelly James, 15, Bro Llan, Llanwnnen, 9. Mrs Wendy Mason, 35 Heol Hathren, 10. Miss. Rebecca Evans, Annwyllfan, Llanllwni.

Diolch

Dymuna Ros Lloyd ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'i cymorth ynghyd â'r llu cardiau, dymuniadau gorau a galwadau ffôn ar ôl cael llawdriniaeth. Diolch arbennig i Chris am ofalu ar ôl mam mor dda.

Llwyddiant Academaidd

Llongyfarchiadau i Tomos Jones, Glanhathren ar ennill gradd BSC gydag anrhydedd o Goleg Prifysgol Aberystwyth. Pob lwc i'r dyfodol.

Eglwys Sant Iago

Aeth aelodau o ffrindiau eglwys Sant Iago ar eu pererindod flynyddol ar ddydd Sul, Mehefin 17eg gan ddechrau o'r ficerdy yng Nghwmann am 8.30 o'r gloch a'r tywydd yn ffafriol. Ymlaen yn gyntaf tua Aberhonddu gan fwynhau y golygfeydd wrth deithio trwy'r wlad brydferth a gwerthfawrogi cread Duw.

Yna roedd cyfle i gael seibiant a chwpanaid derbyniol iawn o de a bisgedi cyn mynd yn ôl i'r bws ac ymlaen i Henffordd i fwynhau cinio blasus cyn mynd i'r Gadeirlan lle cawsom ein harwain a chael taith ddiddorol ac hanesyddol iawn o amgylch yr adeilad hynafol a chyfle i weld y trysorau sydd yno yn enwedig y 'Mappa Mundi' a'r 'Llyfrgell Cadwynau' a llawer o bethau hanesyddol iawn.

Uchafbwynt y dydd oedd cael gwahoddiad i eistedd gyda chôr y gadeirlan ac ymuno yng ngwasanaeth yr hwyrol weddi a gwrando ar leisïau disgybledig swynol y côr yn canu'r gwasanaeth a rhoi datganiad gwefreiddiol o'r

salm a'r anthem a'r organydd yn creu naws fendithiol iawn trwy'r gwasanaeth. Roedd pawb wedi cael gwefr i fod yno.

Ar y ffordd adref roedd yn rhaid cael y pryd arferol o sgolodion a physgodyn yn Llanymddyfri. Trefnwyd y bererindod gan Graham a Ceinwen Evans sydd yn benigamp erbyn hyn yn trefnu diwrnodau diddorol bob blwyddyn i aelodau'r eglwys ynghyd â ffrindiau, ond eleni ar ôl paratoi y cyfan methodd Graham a Ceinwen ymuno ar y diwrnod oherwydd digwyddiadau trist a sydyn teuluol. Yr ydym fel aelodau a ffrindiau yn cydymdeimlo yn ddwys iawn â Ceinwen a'r cysylltiadau teuluol yn eu colled lem, yr ydym yn meddwl amdanoch i gyd. Yn eu absenoldeb diolchodd ein ficer yr Hybarch Andrew John iddynt am drefnu pererindod mor ddiddorol a bendithiol ac aeth ymlaen i ddiolch i Danny, Ann a Tom am arwain y diwrnod yn absenoldeb Graham a Ceinwen. Diolch o galon am y cydweithio i sicrhau llwyddiant y diwrnod.

Ras Hwyaidd

Ar nos Fawrth, 10fed Gorffennaf cynhaliwyd barbicïw a ras hwyaidd gan eglwys Sant Iago mewn awyrgylch tawel ac hyfryd ar lawnt fferm Felinfach a'r tywydd yn garedig. Cafwyd hwyl a sbri yn nofio'r hwyaidd ar y llyn a'r plant wrth eu bodd yn pysgota'r hwyaidd. Roedd dros wyth gant o hwyaidd wedi eu gwerthu, felly aeth tipyn o amser i rasio'r cyfan ac roedd rhaid cael amryw rhagbrawf cyn y ras derfynol. Yr enillwyr oedd – 1. Sarah Evans, Llysycoed, Cwmann, 2. Stewart Dodd, Ciliau Aeron, 3. Esme Payne, Lanion, Cellan, 4. Ann Hardwick, Caerwrangon, 5. Leslie Evans, Gerycapel, Llangain.

Ar ôl cyffro y rasio bu pawb yn ymlacio a mwynhau y barbicïw a'r pwddin blasus wedi ei baratoi gan aelodau'r eglwys. Diolch o galon i Graham a Ceinwen am agor eu cartref a'u gardd i ni, a'i gwneud yn bosib i ni dreulio noson hwylus iawn o gymdeithasu mewn awyrgylch hyfryd. Diolch i bawb a fu yn gwerthu hwyaidd a rhoi'r gwobrau ariannol, paratoi'r bwyd a gyfrannu mewn unrhyw ffordd a sicrhodd lwyddiant y noson a chodi arian sylweddol i gronfa'r eglwys.



Cludfwyd Indiaidd **NEHAR**

newydd agor yn Llambed



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07790429378

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010

Fel y gwyddoch mae'r Eisteddfod yn dod i Geredigion yn 2010 ac rydym yn edrych am leoliadau addas i'w chynnal. Yr anghenion arferol ar gyfer lleoliad Eisteddfod yw:

- Tua 75 acer o dir cymharol wastad a chadarn, mewn un parsel heb fod yn rhy gleiog (fel na all ddraenio)
- Bydd angen meddiant o't tir o ganol Ebrill i'r Maes ei hun a chanol Mai i'r gweddill
- Trosglwyddir y tir yn ôl – 2- 3 wythnos ar ôl yr Eisteddfod.
- O flaen pellter hwylus i dref, i briffordd ac i gyflenwad dŵr a system garffosiaeth
- Yn ddelfrydol y lleoliad cyfan mewn un berchnogaeth

Os oes gwybodaeth gennych am leoliad allai ateb y gofynion uchod neu os ydych yn ymwybodol am leoliad fyddai'n bosib i'r Eisteddfod ystyried cysylltwch â Sheelagh Edwards, Trefnydd Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glanllyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd. LL23 7ST, neu e-bost Sheelagh@urdd.org erbyn dydd Gwener, 5 Hydref 2007.

Yn gywir,
Dylan Davies
Cadeirydd Pwyllgor Safle

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Alltyblaca



Elin and Gary Watkins gyda ffrindiau a theulu yn cyflwyno dwy sic o'r arian a dderbyniwyd er cof am eu merch Sian a fu farw eleni yn 18 oed. Cyflwynwyd £4,145.00 gan Elin i Meryl Davies a Dianne Williams o Ymddiriodolaeth Cystic Fibrosis, a cyflwynodd Gary sic i Dr Gwyneth Owen, Sister Rhiannon Thomas a Sister Margaret Brooker o Ward Cilgerran, Ysbysty Glangwili am £4,569.00.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr & Mrs Jack Jenkins, Perthi ar farwolaeth ei hunig chwaer Euriana a oedd yn byw yn Aberaeron – un a frwydrodd yn ddewr yn erbyn afiechyd creulon ar hyd cyfnod maith o flynyddoedd.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fflint a'r Cyffiniau.

Dyma rhai fu'n llwyddiannus o ardal Clonc:
Unawd Llinynnol dan 16 oed: 1af - Eurion Jones-Williams, Cysgod-y-Pin, Cwmann. Llefaru 12 – 16: 3ydd - Elliw Mair Dafydd, Gwarffynnon, Silian. Llefaru 16 – 19: 2il - Hedydd Davies, Gwarffynnon, Silian. Llefaru o'r Ysgrythur 16 – 19: 2il - Hedydd Davies, Gwarffynnon, Silian. Pryddest: 1af - Huw Evans, Alltgoch, Cwrtnewydd. Siarad Cyhoeddus: 1af - Enfys Hatcher, Cefn Hafod, Gorsgoch. Llongyfarchiadau i bawb.



Cyfarfod cyhoeddus yng Nghanolfan Cwmann i drafod dyfodol Ysgol Carreg Hirfaen oherwydd toriadau yn arian y Cyngor Sir.

Mae CLONC ar werth yn y siopau canlynol:

Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Glennydd, Cwrtnewydd
Gwasg Gomer, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Vanilla Bay, Aberaeron
Siop Talgarreg
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Cwmann
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafof, Gorsgoch
Tu-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Cyhoeddodd S4C apêl 2007, Hybu Rygbi, gyda'r bwriad o helpu achosion sy'n agos at galonnau cymunedau rygbi yng Nghymru.

Mae'r apêl ychydig yn wahanol i apêl arferol y Sianel, gan na fydd S4C yn codi arian yn uniongyrchol. Yn lle hynny, fe fydd y Sianel yn cynnig cefnogaeth i glybiau, cymdeithasau, unigolion ac elusennau sy'n gysylltiedig â rygbi wrth iddyn nhw fwrw ati i gynnal eu digwyddiadau ac i godi arian.

Fe fydd apêl S4C yn helpu codi ymwybyddiaeth am y digwyddiadau trwy gyfrwng ei rhaglenni a'i phersonoliaethau.

Os ydych chi â diddordeb mewn trefnu digwyddiad codi arian yn gysylltiedig â rygbi, ac awydd cymorth gan S4C, yna ewch at wefan S4C www.s4c.co.uk/cefnogi am fanylion pellach a ffurflen gais neu cysylltwch â Gwifren Gwylwyr S4C, 0870 6004141.

Siop Fferm Organig Maesyronnen

Drefach Llanwenog
Am ffrwythau, llysiau
a chynnyrch fferm tymhorol.
Popeth lleol; popeth organig.
Ar agor

Llun i Ddydd Iau 12 – 6
Sadwrn a'r Sul 10 – 2
(Ar gau Dydd Gwener).

Gordon ar 01570 480 785
am fwy o fanylion.

Gwesty'r Grannell Llanwnnen



Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyio ar gyfer pob
achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.

Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£25.00 am chwarter tudalen.

£50.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC
am ragor o wybodaeth:

01570 480015
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Llanbedr Pont Steffan

Dathlu 90 Oed



Yn y llun gwelir Ida Morgan a'i merch Charlotte Evans yn dathlu pen-blwydd arbennig Ida yn 90 oed diwedd mis Gorffennaf.

Bu Ida yn ffermio yn Ffarmers am rai blynyddoedd nôl yn y pumdegau cyn symud i Grugybar. Bu'n byw ym Mhenbryn, Llambled am bron i 30 mlynedd ac erbyn hyn mae wedi ymgartrefu yn agos i'w merch yn Bedford.

Mae Ida yn cyfrannu i Clonc ac yn mwynhau darllen pob rhifyn o glawr i glawr.

Llongyfarchiadau calonnog i chi, Ida a gobeithio eich bod wedi cael diwrnod wrth eich bodd.

Gweithgor Bedyddwyr Ceredigion

Cynhaliwyd cyfarfod dan nawdd Gweithgor Ceredigion yng nghapel Noddfa yn ddiweddar. Llywyddwyd gan y Gweinidog y Parchedig Jill Tomos a threuliwyd noson ddiddorol yng nghwmni'r Parchedig John Roderick Jenkins, Llanon.

Dechreuwyd y cyfarfod drwy ganu emyn gyda Janet Evans wrth yr organ, yna darllenodd John Morgan ran o'r Ysgrythur ac offrymwyd gweddi gan Avanna Evans.

Rhoddodd Cadeirydd Gweithgor Ceredigion, Sam Owen groeso cynnes i'r Parchedig John Jenkins gan gyfeirio ato fel gŵr hynaws a dysgedig iawn.

Testun ei anerchiad oedd "Hanes Crefydd Eglwysi Cristnogol Ewrop" a chafwyd darlun helaeth o fywyd crefyddol yn y cyfandir. Disgrifiodd sut byddai'r Grefydd Gristnogol yn dylanwadu ar ymddygiad y trigolion yn eu bywyd beunyddiol, eu hymarweddiad at eu cyd-ddynion a bod o ddifrif fel Cristnogion. Yna ar ddiwedd yr anerchiad daeth cyfle i rywun o'r gynulleidfa ddweud gair neu ofyn cwestiwn a chafwyd llawer o hwyl gan i'r cwestiynau amrywio'n fawr. Gwerthfawrogwyd hefyd gyfraniad y Parchedig Irfon Roberts i'r cyfarfod mewn sylwadau difrifol, cydnaws ac adeiladol yn ôl ei arfer.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb fu'n cymryd rhan ac i Nesta Harries am bob help gyda'r trefniadau. Ar ôl y cyfarfod gwahoddwyd pawb i'r festri lle'r oedd chwiriwydd Eglwys Noddfa wedi paratoi lluniaeth hyfryd.

Bedyddwyr

Aeth aelodau eglwysi Bethel, Caersalem a Noddfa ar drip dirgel wedi ei drefnu gan Llinos gyda chymorth Owena i gloi gweithgareddau'r Gymdeithas am y flwyddyn. Braf oedd cael noson sych! Wrth i bawb geisio dyfalu lleoliad pen y daith dyma gyrraedd Canolfan Barcud ac Amgueddfa Tregaron a threuliwyd orig bleserus a diddorol dros ben yno. Cafwyd llawer o hwyl yn yr ystafell ddosbarth Fictoraidd o dan oruchwyliaeth lem Howard a Meima Morse! Diolchwyd yn gynnes iddynt gan John Morgan am ein hatgoffa o gyfnod y "Welsh Not" mewn ffordd mor ddifyr.

Yna cawsom gyfle i glywed hanes sefydlu'r Ganolfan yn 1997 gan Mary Lewis un o'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yno a hefyd cawsom wybodaeth ganddi am yr ymgyrch lwyddiannus yng Nghymru i achub y Barcud Coch sydd wedi'i ddyfarnu yn "Aderyn y Ganrif."

Yna bu pawb yn edmygu'r gwaith celf lleol arbennig sydd yno yn cynnwys tapestri unigryw yn darlunio hanes, diwylliant a bywyd gwyllt yr ardal. I gloi noson hynod lwyddiannus mwynhawyd swper ardderchog yn y Talbot.

Diolch yn fawr i Llinos am ei gwaith diflino fel ysgrifennydd y Gymdeithas yn ystod y tair blynedd olaf a hefyd i Owena y cadeirydd ac Aled y trysorydd am eu cyfraniad hwythau yn ystod y flwyddyn.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ystod misoedd yr haf.

Gefeilliaid

Llongyfarchiadau calonnog i John ac Elizabeth Warmington ar ddod yn Dad-cu a Mam-gu am y tro cyntaf i efeilliaid sef Lilian a Joshua, a anwyd i Awena a Simon yn Besdey. Swydd Caint ar Awst 12fed. Pob dymuniad da i'r teulu i'r dyfodol.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Kiri Douglas, Bryn Rhosyn, Barlwy Mow, am basio Gradd 2 ar y piano gydag anrhydedd. Cafodd Kiri farciau llawn yn y theori.

Hefyd, llongyfarchiadau i Meirion Thomas, Tremallt, Rhodfa Glynhegog, am basio Gradd 1 ar y piano gyda chlod. Cafodd Meirion farciau llawn yn y theori a'r profion clust, ac roedd ef a Kiri'n ymgeisio o dan nawdd Coleg Cerdd Llundain.

Daeth llwyddiant dwbl yn ddiweddar i Llion Thomas, Tremallt, Rhodfa

Glynhegog yn y maes cerddorol. Pasiodd Llion Gradd 5 ar y piano gydag anrhydedd, gan gael marciau llawn yn y theori o dan nawdd y

'London College of Music' ac fe basiodd Gradd 3 ar y ffidil gyda chlod o dan nawdd y 'Royal College of Music.'

Noddfa

Cynhaliwyd oedfa yng ngofal yr aelodau yn Noddfa ar 19 Awst ac er bod nifer i ffwrdd ar eu gwyliau cafwyd gwasanaeth arbennig iawn a chrewyd naws hyfryd wrth gyd addoli.

Offrymwyd gweddi agoriadol gan Catherine Thomas a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan John Morgan, Sian Jones, Rhandir a Tomos Rhys. Cyhoeddwyd yr emynau gan Myfanwy Bryce, Derek Evans, Alun Williams a Megan Jenkins.

Cyflwynwyd crynodeb o anerchiad Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru sef y Parch Alwyn Daniels gan Janet Evans yn seiliedig ar y thema "Tynnu'r Gorchudd" gyda neges gyfoes a gwerthfawr i bawb ohonom.

Diolchodd Alun yn ddiffuant i Janet am drefnu'r oedfa ac i bawb am gyflawni eu gwaith gyda graen a thalodd ei werthfawrogiad hefyd i Llinos Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ. Cytunai pawb mai da oedd cael bod yn bresennol.

Cynhelir oedfa gymun yn Noddfa nos Sul 2il Medi am 6 o'r gloch a'n Gweinidog y Parch Jill Tomos yn gwasanaethu. Hefyd trefnir Barbeciw yr Ysgol Sul ar 16 Medi – enwau i Janet neu Llinos erbyn 12 Medi os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb yn gysylltiedig a'r Ysgol Sul a hefyd i aelodau Bethel, Caersalem a Noddfa a'u teuluoedd. Dewch ynghyd i fwynhau noson o wleda ac o gymdeithasau.

Graddio

Llongyfarchiadau gwresog i Rhiannon Pugh, Brynheulwen, Heol Tregaron, Llanbedr Pont Steffan ar ennill gradd 2:1 yn y Gyfraith o Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Dyfarnwyd hi hefyd yn enillydd Gwobr Calcott Pryc a Gwobr LexisNexis Butterworth gan Fwrdd Arholwyr y Gyfraith. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna Eluned James, Ael y Bryn, Heol Maestir ddiolch yn fawr iawn i'w pherthnasau, chymdogion a ffrindiau oll am y galwadau ffôn, rhoddion a'r blodau, y pentwr cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed. Diolch yn fawr iawn i chwi gyd.

Pen blwydd arbennig

Yn ystod y mis bydd Jenkin Jones, Fronowen, Heol Maestir yn dathlu pen blwydd arbennig – iechyd da iddo eto am flynyddoedd lawr.

Seren y Sgrîn Fach

Braf oedd gweld Delyth Timmis, Delfan, Stryd Newydd yn ymddangos ar 'Pobol y Cwm' yn ddiweddar o ganlyniad i wrandawiadau a gynhaliwyd yn Ysgol Gyfun Llambled yn gynharach eleni. Profiad arbennig i Delyth oedd cydweithio gydag actorion y gyfres. Llongyfarchiadau iddi ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn ymddangos eto yn y dyfodol.

Cwrdd Diolchgarwch

Nos Lun 24 Medi cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7 o'r gloch a'r Parch Eirian Wyn Lewis yn gwasanaethu. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau cynnes i Derek a Janet, Haulfryn, 1 Maesyllan sydd yn dathlu eu Priodas Ruddem ar Fedi'r 30. Mwynhewch eich gwyliau yn yr Eidal. Oddi wrth y teulu.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Llion Thomas, Tremallt, Rhodfa Glynhegog am basio Gradd 3 ar y ffidil gyda chlod o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol. Da iawn ti.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau calonnog i Ffion, unig blentyn Denzil ac Eirian Evans ar ei llwyddiant yn cael ei derbyn i ddilyn cwrs BA anrhydedd tair blynedd mewn Theatr Gerddorol yn Academi Celfyddydau Theatrigrig enwog Mountview yn Llundain. Yn flynyddol bydd tua 3,500 yn cael clyweliadau yno ond eleni oherwydd poblogrwydd y rhaglen "How Do You Solve A Problem Like Maria?" cododd y nifer i 5,000; dyma'r coleg y bu Connie Fisher yn dysgu ei chreffft. Mae Ffion wedi cwblhau blwyddyn yn Mountview yn gwneud Cwrs Craidd ond bu'n rhaid iddi gael clyweliad fel pawb arall er mwyn mynychu'r cwrs gradd. Felly mae wedi cyflawni camp aruthrol drwy gael ei dewis yn un o'r 40 yn unig a dderbynnir i'r Academi eleni. Disgwylir ymroddiad llwyr oddi wrth y myfyrwyr gan eu bod wrthi o 8 o'r gloch y bore tan 7 o'r gloch yr hwyr am 5 diwrnod yr wythnos. Maent yn derbyn hyfforddiant mewn dawnio, canu ac actio gan athrawon gorau'r diwydiant – nifer ohonynt wedi profi'r wefr o berfformio yn y "West End." Mae pawb yn yr ardal yn ymfalchïo yn llwyddiant Ffion ac yn dymuno'n dda iddi ac yn edrych ymlaen i'w gweld ar lwyfan y "West End" yn y dyfodol. Pob lwc i ti Ffion.

Diolch

Dymuna Mary Jones, Landre ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y

Llanbedr Pon Steffan

llu cardiau, blodau, ffrwythau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr iawn i Lowri Elen, Glennydd, Stryd Newydd am basio arholiad Telyn gradd 2 gydag anrhydedd o dan nawdd Coleg Trinity Llundain a hefyd arholiad theori gradd 1 eto gydag anrhydedd gan sicrhau marciau llawn. Roedd yr arholiad yma o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol

Llongyfarchiadau hefyd iddi ar ei llwyddiant mawr yn Eisteddfod Pantyfedwen. Enillodd ddwy wobwr gyntaf ac n trydydd ar y dydd Sadwrn gan gyflawni yr un gamp yn y cystadlaethau agored ar y dydd Llun. Dymuniadau gorau iddi eto i'r dyfodol.

Dere i Dorri



Gwobrwywyd Catrin Davies, siop trin gwallt Dere i Dorri ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddiweddar, fel cydnabyddiaeth o'i llwyddiant yn hyrwyddo'r Gymraeg a'u cyfraniad i'r economi lleol a chenedlaethol.

Ers sefydlu Dere i Dorri yn 2003, mae'r busnes wedi datblygu'n raddol, gan hyfforddi ail steilydd yn llwyddiannus a sicrhau fod seiliau cadarn i'r busnes cyn symud ymlaen. Mae'r busnes bellach yn cymryd yr ail gam yn ei ddatblygiad, trwy gynnig therapïau harddwch a symud i salon mwy o faint ar y Stryd Fawr yn Llanbedr.

Yn anarferol i fusnes o'r fath, mae gan Dere i Dorri wefan ddwyieithog sy'n help i ddenu cwsmeriaid. Un syniad newydd arloesol yw defnyddio'r wefan i roi lluniau 'cynt' ac 'wedyn' o bobl leol - felly gwyliwch allan, efallai bydd trigolion yr ardal arno cyn hir!

Noddur y Gwobrau Menter gan Menter a Busnes, yr Eisteddfod Genedlaethol, Croeso Cymru a West Coast Energy; ac fe'u cefnogir gan Tinopolis, Golwg a'r Daily Post.

Neges i Holl Wragedd Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch

A ydych yn aelod o Ferched y Wawr? Os nad ydych eisoes yn aelod o'r Mudiad - tybed a ellir gofyn

pam?

Efallai y gwnewch oedi am ennyn fach a gofyn y cwestiwn i chi eich hun. Rwy'n siwr pe ofynnir am ymateb y ceir ystod eang iawn o resymau, fel:

Rhy brysur, Pwysau gwaith, Teulu ifanc, Gweithio oriau anhyblyg, Neb wedi gofyn i chi ymaelodi, Y cyfarfodydd yn rhy 'boring'. Ofn derbyn swydd, Cymraeg ddim digon da, Gormod o hen ffogis yn mynd yno, Wedi bod yn aelod ond oherwydd amgylchiadau wedi gorfod rhoi fyny ac yn methu cael yr hyder i ail-ymaelodi

Dim ond cyffwrdd a wneir uchod â'r esgusodion sy'n gwibio drwy'r meddwl ac mae'n siŵr fod rhai ohonynt yn hollol ddilys - ond pe baech chi yn ymaelodi/ ailymaelodi gallech wneud gwahaniaeth ac nid yn unig i'r gangen ond, gobeithio, i'ch bywyd chwithau hefyd. Mae'r Mudiad yn rhoi cyfle euraidd i ni gwrdd â gwragedd eraill sydd yn yr un sefyllfa â ni, a thrwy hynny - gwrdd â ffrindiau newydd a'r cyfan yn ein mamiaith.

Mae cangen Merched y Wawr Llanbedr yn trefnu rhaglen amrywiol iawn yn flynyddol ac ni fydd y flynyddyn nesaf yn eithriad. Festri Capel Shiloh yw ein man cyfarfod a hynny ar yr ail nos Lun o'r mis, ond ambell dro 'rydym yn trefnu gweithgareddau allanol diddorol hefyd gan geisio apelio at ddant pawb.

Os ydych yn adnabod rhywun sydd eisoes yn aelod - wel beth am gael gair i gadarnhau yr wybodaeth uchod, neu well fyth - beth am droi fewn a phrofi dros eich hun. Ni chewch eich siomi a bydd croeso cynnes yn eich aros.

Felly, Nos Lun, 10fed Medi am 7.30 yn Festri Shiloh amdani - fe welwn chi yno..... gobeithio !!!!!

Gwibdaith Flynyddol Shiloh

Daeth mintai gref ynghyd ar gyfer y wibdaith flynyddol tan ofal trefnus Twynog a Hazel Davies. Dyma'r unfed daith ar ddeg dan eu harweiniad aeth â ni y tro hwn i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, Bro Gŵyr a Chapel Moriah, Casllwchwr, ymhlith lleoedd eraill.

Bysiau G ac M aeth â ni ar ein taith foethus a chyfforddus, a Granville, ein gyrrwr ystyrllon, yn sicrhau siwrnai ddi fai. Gadawsom Capel Shiloh i gyfeiriad Caerfyrddin a'r M4 ac ymlaen i Abertawe. Er ei bod yn ddiwrnod cymylog, yr oedd y golygfeydd yn drawiadol a phawb yn mwynhau'r cwmni a'r sgwrsio'n ddifyr. Y mae'n syndod cymaint mwy y gellir ei weld pan yn teithio mewn bws, yn olygfeydd rhyfeddol fel pensaerniaeth Stadiwm Liberty, Abertawe, enwau tai diddorol megis Cartref Doniolwch, a phoster



Brenhines Carnifal Llanbedr Samantha Miller yn cael ei choroni gan Faer y Dref gyda'r ddwy forwyn Gordan Evans a Tanwen Owens a'r gweision Daniel Davies ac Arthur Jones.

arwyddocaol tu allan i Gapel Bethel, Gorseionon yn nodi 'This Church has a Lost and Found Department'! Tra'n nesau at Amgueddfa'r Glannau, dosbarthwyd taflenni gwybodaeth a chawsom gyflwyniad gan Owen Jones yn cynnig awgrymiadau i wneud y defnydd gorau o'n hymwelriad. Rhyfeddod oedd gweld y ffotograffau enfawr a thrawiadol o bedwar ban byd y tu allan ger y fynedfa, a'r cyntedd anferth ple lleolir arddangosfa amserol iawn yn trafod 'Cymru a Chaethwasiaeth'. Cafodd hon argraff ddofn ar sawl un, ac er bod y Ddeddf Masnachu Caethweision wedi diddymu caethwasiaeth dwy ganrif yn ôl, syndod yw credu cynifer yr achosion o gaethwasiaeth sy'n dal i'w gweld ar draws ein byd heddiw. Cawsom gyfle i weld rhai o'r orielau eraill yn olrhain hanes Cymru trwy'r canrifoedd, a phaned derbyniol yn y caffi. Efallai mai blas o gynnwys yr amgueddfa a gawsom ond yr oedd yn ddigon i ddangos cymaint sydd i'w weld a bod angen dychwelyd eto'n fuan i weld rhai o'i thrysorau eraill.

Gadawsom Abertawe ac aros yn y Mwmbwls am ginio; brechdanau i rai a chyfle i eraill flasu cynnyrch bwytai niferus y dref. Ymwelodd nifer â'r Eglwys Fethodistaidd ple y trawsnewidiwyd yr adeilad yn llwyddiannus i fod yn eglwys, caffi, siop a chanolfan i ymwelwyr. Ymlaen wedyn am Rhosili sy'n gorwedd ar ben gorllewinol Bro Gŵyr, ac Owen yn cyfeirio at beth o hanes yr ardal megis Ogof Pafiland ple y darganfuwyd sgerbwd corff dynol o Hen Oes y Cerrig a adnabyddir dan yr enw "Arglwyddes Goch Pafiland". Newidiodd y tywydd yn sydyn a daeth y glaw i'n croesawu wrth i ni nesau at y penrhyn a'i gwneud yn anodd i werthfawrogi harddwch traeth melynog enwog Rhosili. Aeth criw

dewr yn y gwynt a'r glaw i Eglwys y Forwyn Fair er mwyn gweld cofeb Edgar Evans, ple cofnodir ei farwolaeth yn 1912 tra'n dychwelyd gyda Capten Scott o Begwn y De. Cafodd sawl un hufen iâ a'r tywydd felly'n amharu dim a'r ein mwynhad!

Anodd fu ffarwelio â phrydfetherwch Bro Gŵyr, ond yr oedd trefniant i gyrraedd Casllwchwr erbyn 4.00 o'r gloch ple yr oedd Twynog a Hazel wedi trefnu ymweliad arbennig iawn â Chapel Moriah. Bydd llawer yn ei adnabod fel 'Capel Evan Roberts', arweinydd Diwygiad 1904/05, ac o'i flaen ceir cofeb urddasol iddo. Cawsom groeso hyfryd yn y Festri a lluniau blasus tra'n gwrando'n astud ar Bethan Jones (Ysgrifennydd Capel Moriah) yn adrodd hanes y capel a'r cysylltiadau gydag Evan Roberts. Bu nifer ohonom yn mwynhau'r arddangosfa yn cyfeirio ymhellach at y capel, Evan Roberts a'i gyfoedion, cyn ymlwybro i'r capel ar gyfer gwasanaeth byr o dan arweiniad ein Gweinidog, y Parch. Elwyn Jenkins. Cawsom wasanaeth teimladwy a'r canu, dan ofal Twynog, o ddwy o 'Emynau'r Diwygiad' (Ebeneser a Cleveland) yn codi'r to! Bu'n brofiad arbennig cael ymweld â'r fangre bwysig hon yn hanes ein crefydd â'n gwlad, ond ffarwelio fu rhaid er mwyn cyrraedd Tafarn yr Hannerffordd, Nantgaredig mewn da bryd am swper.

Yr oedd trefniadau'r swper yn ôl y disgwyl yn ardderchog - ystafell braf, dewis eang o fwyd at ddant pawb a digon o gyfle i sgwrsio am y rhyfeddodau a welsom yn ystod y dydd. Cefais y pleser o ddiolch ar ran pawb i'r criw gweithgar fu'n gyfrifol am ddiwrnod mor fendigedig, ac yn enwedig i Twynog a Hazel am drefnu eto eleni gwibdaith fythgofiadwy.

Rhys Bebb Jones

Cwrtnewydd

Mabolgampau Cwrtnewydd

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 14eg ac yng nghanol tywydd gwlyb trodd y tywydd allan yn ddiwrnod braf a chynnes yng Nghwrtnewydd wrth iddynt gynnal eu Mabolgampau Blynnyddol. Lywydd y dydd eleni oedd Mr & Mrs Bifan Morgan Dôl-ardd. Derbyniwyd araith bwrpasol iawn gan Mr Morgan cyn i'r cystadlaethau ddechrau.

Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs Myfanwy Jones, Blaenwaun-ganol ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

Hefyd, llongyfarchiadau i Anne Evenden, Gwalia ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn ystod mis Awst. Hefyd yn ystod mis Awst dathlodd Gareth Lloyd, Ucheldir ei ben blwydd yntau yn 60 oed.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Huw Evans, Alltgoch ar ennill y delyneg yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fflint a'r Cyffiniau.



Caryl Rees pencwmpwraig hŷn mabolgampau ysgol Dyffryn Teifi a hefyd chwaraewraig ifanc y flwyddyn cynghrair hoci Dyffryn Teifi. Mae Caryl yn wyres i A. M. Rees, Frondeg a hefyd i Eirlys Davies o Lanybydder. Llongyfarchiadau i Caryl a phob lwc eto i'r dyfodol.

Ysgol Cwrtnewydd

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn y ddwy sioe leol dros wyliau'r haf. Braf oedd gweld enwau plant ysgol Cwrtnewydd ymysg yr enillwyr. Dyma enwau y rhai a ddaeth i'r brig. Sioe Cwmsychpant Arlunio i blant blwyddyn 2 ac iau 2il Cerys Pollock, 3ydd Zachary Wroe, Arlunio i blant blwyddyn 5 a 6 1af Aiden Cook

2il Meleri Davies, 3ydd Siôn Lewis, Llawysgrifen i blant 8 oed a thano 1af Iwan Evans, 3ydd Edward Furlong, Llawysgrifen i blant 9 a dan 12 oed 1af Imogen Furlong, 2il Elinor Jones, 3ydd Sophie Jones. Sioe Gorsgoch Llawysgrifen blwyddyn 3 a 4 1af Meinir Davies,

2il Luned Jones, 3ydd Stephen Hyde, Llawysgrifen blwyddyn 5 a 6 3ydd Imogen Furlong, Arlunio blwyddyn 3 a 4 2il Rhodri Hatcher, Arlunio blwyddyn 5 a 6 3ydd Siôn Lewis. Da iawn blant daliwch ati!

Clwb Ffrindiau'r Ysgol

Mis Gorffennaf 2007: £10.00 Byron Williams, Hafod Y Gors, Gorsgoch, £5.00 Eluned Evans, Gweldir, Rhydowen, £ 2.50 Lloyd Harries, Esgairfryn, Meidrim, £ 2.50 Catherine Davies, Glennydd, Cwrtnewydd

Mis Awst 2007: £10.00 Emyr Jones, Hollis, Llanbedr Pont Steffan, £5.00 Phil Jones, Penlôn, Gorsgoch, £2.50 Heiddwen Tomos, Fronddu, Cwrtnewydd, £2.50 Lyn Jenkins, Haulfryn, Rhydowen.



Cystadleuaeth Silwair



Cyflwynwyd tarian am ennill cystadleuaeth Silwair yn y Sioe Fawr i Mr a Mrs Davies a'r teulu, Gwarffynnon gan Lywydd y Sioe.

Bethel

Roedd Oedfa fore Sul 19fed o Awst ym Methel, Silian dan ofal yr aelodau a'r ifanc. Cawsom weddi agoriadol gan Glyn Davies a llywyddwyd yr Oedfa gan Huw Williams. Cafwyd darlleniad gan Mair Davies a'r weddi gan Jennifer Thomas. Braint i ni oedd cael adroddiad Beiblaidd gan Hedydd a hithau wedi cael ail wobwr yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'r llywydd yn estyn llongyfarchiadau i nifer o'r ifanc a'r aelodau yn cynnwys Elliw, Owen, Gavin, Hedydd ac hefyd David a Daniel. Teimlwyd fod yna ddoniau arbennig yn ein mysg mewn gwahanol feysydd a dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol. Darllenwyd yr Emyrnau gan Beryl, Irene, Eleri a Nesta. Cafwyd anerchiad diddorol gan David Davies yn sôn am bwysigrwydd y teulu fel meithrinfa i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a hefyd yn cymharu digwyddiadau Cristnogol yn cynnwys y Damhegion. Cafwyd cyfraniad yn ogystal gan Hedydd ac Elliw. Y cyfeilyddion oedd Owen, Hedydd a Elliw. Talwyd y Diolchiadau gan Huw am Oedfa arbennig a chydadroddwyd y Fendith i orffen.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau calonnog i Hedydd ac Elliw Davies,

Gwarffynnon, ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fflint a'r Cyffiniau. Enillodd Hedydd yr ail wobwr yng nghystadleuaeth llefaru 16-19 oed a hefyd am lefaru o'r ysgrythur. Cipiodd Elliw y drydedd wobwr am lefaru 12-16 oed. Daethant a chlod i'r ardal unwaith eto.

Llongyfarchiadau i Delyth Evans, Tangraig ar ei llwyddiant mewn arholiad Gradd 1 gydag anrhydedd o dan nawdd Coleg Cerdd Llundain, gan dderbyn marciau llawn yn theori, profion clust a'r 'scales.' Da iawn ti.



Ar ddiwedd mis Gorffennaf fe wnaeth dau aelod o glwb rhedeg Sarn Helen gystadlu mewn ras 10 milltir Yr Wyddfa. Fe wnaeth Caryl Davies a Kevin Hughes yn arbennig i gwblhau'r cwrs caled yma mewn amser da iawn.



Roeddwn fel clwb yn falch iawn o wyllo Caryl ar raglen a oedd yn dilyn y ras a oedd yn cael ei ddangos S4C ar y nos Sul ganlynol. Cafodd Caryl ei dewis gan y tîm cynhyrchu gan taw hi oedd y ferch ieuengaf yn y ras. Mae Caryl ond yn 19 oed a fe wnaeth yn arbennig iawn yn ei ymddangosiad gyntaf a gorffen y ras mewn amser o 2 awr 8 munud a 8 eiliad. Gorffennodd Caryl 28ain yn y menywod agored. Cafodd Kevin Hughes ras dda iawn hefyd i orffen mewn 1 awr 43 munud a 3 eiliad, gorffennodd Kevin yn yr 87fed safle. Da iawn i'r ddau aelod.

Yn yr ail rownd o ras 5 cilomedr yn Poppit croesodd Andrew Abbott y llinell yn y safle cyntaf mewn 17.20 gyda Carwyn Thomas yn ail mewn 17.53. Cafodd Glyn Price cyntaf yn y dynion dros 40 mewn 18.55 a'i frawd Huw drydydd gyda amser o 20.37. Llwyddodd Richard Marks gael cyntaf yn y dynion dros 50 mewn amser o 19.56. Daeth Gethin Jenkins yn drydydd yn y ras ieuencid i fechgyn a chafodd yntau amser o 20.14.

Daeth llwyddiant i bedwar aelod o'r clwb mewn ras o Lanwrda i Gaio, enillwyd y ras gan Andrew Abbott a Carwyn Thomas yn ail, yn y dosbarth i ddynion dan 20 oed

daeth Irfon Thomas yn gyntaf a Huw Rowcliffe yn ail. Cafodd Haydn Lloyd lwyddiant wrth ennill y ras 8 milltir yn Myddfai a chafodd Gethin Jenkins gyntaf yn y ras 5 milltir.

Yn y ras 10 cilomedr yn Abeteifi Glyn Price yn ennill y categori i ddynion dros 40 mewn amser o 37.15 a Richard Marks yn ennill i ddynion dros 50 mewn amser o 38.50

Tipyn o wobrau wedi cyrraedd silffoedd aelodau clwb rhedeg Sarn Helen y mis hwn eto!

Dymuna Carwyn a Llŷr (Tanrhos) ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y swm o £3753.00 a godwyd pan oedd Carwyn yn rhedeg Marathon Llundain.



Defnyddiwyd yr arian i brynu 8 cadair 'recliner' i Ward Paediatric South yn Ysbyty Prifysgol Cymru Caerdydd er mwyn fod rhieni yn medru aros gyda'u plant yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135
07811917799 /
07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

KING'S HEAD

Stryd y Bont, Llambod
01570 422598
o dan reolaeth newydd
Emyr ac Ann Marie.
Bwyd Ffres a Chwrrw Da.
Croeso cynnes i bawb.

Cydnabyddir cefnogaeth

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG**

i'r cyhoeddiad hwn

Llinell Gyswilt:
0845 6076070

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.mentrau-iaith.com

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Cwmsychpant



Sioe Cwmsychpant 2007

Ar ddydd Sadwrn Awst 11eg cynhaliwyd Sioe flynyddol Cwmsychpant ar Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen drwy garedigrwydd Mrs Ella a Vernon Davies. Bydd yr arian a godwyd eleni yn mynd i Adran Damwain ac Argyfwng, Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin.

Yn sgil y clwy traed a gennau bu rhaid canslo'r treialon cŵn defaid ac adran y defaid, ond ni wnaeth hyn amharu mewn unrhyw ffordd a chafwyd sioe lwyddiannus iawn. Roedd y cynnyrch o safon uchel a'r babell yn orlawn ac yn werth ei gweld.

Eleni trefnwyd sioe hen beiriannau ar fyr rybudd ond braf oedd gweld cyn nifer o hen beiriannau wedi dod ynghyd.

Am dri o'r gloch cafwyd araith bwrpasol gan Mrs James, Ael-y-bryn, Heol Maestir, Llambled ar ran hi a'i gŵr Ieuan a diolchodd y pwyllgor am y fraint o gael bod yn llywyddion y sioe. Mawr i'w ein diolch am eu rhodd haelionus.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol gyda Dewi Jones, Blaenhirbant wrth y llyw.

I ddod â diwrnod bythgofiadwy i ben cafwyd cwmni un o fawrion Cymru sef Dafydd Iwan a'r Band. Yn gynnar yn y nos fe wnaeth y plant fwynhau perfformiad arbennig, braf oedd gweld Dafydd Iwan yn rhoi ei amser i gael llun gyda'r plant. Daeth cynulleidfarniferus i wrando a mwynhau ei berfformiad a chafwyd noson i'w chofio!

Rhestr o enillwyr y cwpanau: Gwinoedd—Megan Richards, Brynderi, Aberaeron, Cyffeithiau—Mr Lloyd Edwards, Penrhyncoch, Coginio—Wendy Davies, Caerwenog, Penffordd, Gwaith Llaw—Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, Crefft—Dai Davies, Brynerw, Ciliau Aeron, Ffyn—Andrew Jones, Cwmgwyn, Pentrebach, Ffotograffiaeth—Wendy Jenkins, Hafan-y-Cwm, Cwmsychpant, Arlunio Plant: Bl. 2 a thano—Ela Haf Jenkins, Sarnicol, Capel Cynnon, Bl. 3 a 4—Rebecca McEnery, Ysgol Llanwenog, Bl. 5 a 6—Aiden Cook, Ysgol Cwrtnewydd, Adran y Plant

8 a thano—Ela Jenkins, Sarnicol, Capel Cynnon, 11 a thano—Meinir Davies, Caerwenog, Penffordd, 12 a dan 17—Michelle Davies, Cartref,

Llanfihangel ar Arth, Adran Blodau—Gwyn Williams, Blaneplwyf, Llanybydder, Celfyddyd Blodau—Margaret Jones, Caeglas, Cwrtnewydd, Cynnyrch Gardd—Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn, Adran Ceffylau—Anwen Jones, Blaenblodau, New Inn, Adran Ceffylau Plant—Sioned Davies, Y Cartws, Rhydowen

Dymuna pwyllgor Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chymorth a derbyniasant i wneud sioe eleni eto yn un lwyddiannus.

Graddio

Derbyniodd Einir Ryder radd o Goleg Prifysgol Cymru Aberyswyth yr haf hwn. Pob lwc i ti y flwyddyn nesaf pan fyddi yn mynd i Goleg y Drindod am flwyddyn.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Lewis ag Yvonne Davies, Cilmeri ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto, merch fach, Nela Gwenog i Glenys a Dafydd Jones yn Penegoes, Machynlleth. Chwaer fach i Lleuven.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Gyda'r haf yn prysur ddirwyn i ben, ganol mis Medi fe fydd y Cynulliad yn dechrau cwrdd unwaith eto. Fodd bynnag, roedd yr haf yn gyfnod prysur tu hwnt wrth imi geisio ymgyfarwyddo â bod yn Weinidog dros Faterion Gwledig yng nghabinet newydd Llywodraeth y Cynulliad. Cefais fy mhenodi yn ystod wythnos gyntaf gwyliau haf y Cynulliad ac rwy'n edrych ymlaen yn awr at y cyfle i gael cynrychioli Ceredigion a chefn gwlad Cymru oddi fewn i'r Cabinet. Yn y gorffennol, rwyf wedi bod yn galw am gael portffolio penodol ar gyfer Materion Gwledig yn y Cabinet er mwyn cael cynrychiolaeth deg i anghenion cefn gwlad Cymru ar Lywodraeth y Cynulliad. Mae felly'n fraint fawr mai fi yw'r Gweinidog cyntaf i gael y portffolio newydd hwn. Serch hynny, bydd fy ymroddiad at gynrychioli pobl Ceredigion yn parhau i fod yn flaenoriaeth imi.

Un o fy nyletswyddau cyntaf fel Gweinidog oedd trefnu ymateb Cymru i fygythiad Clwyf y Traed a'r Genau. Wrth imi ysgrifennu'r erthygl hon, rydym wedi bod yn ffodus iawn na fu achos o'r Clwyf yng Nghymru. Fodd bynnag, fe gafodd y gwaharddiadau ar symud anifeiliaid effaith yma yng Ngheredigion fel ym mhobman arall yng Nghymru ac roedd hyn i'w weld yn y sioeau amaethyddol y gwnes eu mynychu dros yr haf. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd popeth yn dychwelyd i'r arfer dros yr wythnosau nesaf.

Daeth newyddion da i deithwyr yng Ngheredigion dros yr haf wrth i'r Gweinidog dros Drafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones AC, ddatgan y bydd £13 miliwn yn cael ei wario ar uwchraddio'r rheilffordd rhwng Aberystwyth a'r Amwythig. Roedd y buddsoddiad sylweddol hwn yn un o'r materion a drafodwyd cyn ffurfio clymblaid rhwng Plaid Cymru a'r Blaid Lafur. Rwy'n gyson yn clywed cwynion gan drigolion Ceredigion sydd wedi derbyn gwasanaeth gwael wrth deithio ar y rheilffordd hon drwy Ganolbarth Cymru. Rwyf felly'n gobeithio y bydd prydlondeb a safon y gwasanaeth rhwng Aberystwyth a'r Amwythig nawr yn gwella o ganlyniad er budd holl drigolion Ceredigion.

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

RHODRI ELIAS

Peiriannydd Gwresogi Olew

Yn cynnig gwasanaeth i'r tair sir.
RHODRI ELIAS
Wedi lleoli yng Nghaerfyrddin



- Trwsio a gwasanaethu pob math o foileri olew gan gynnwys stôfiau megis AGA, RAYBURN a STANLEY.
- Asesiadau OFTEC wedi eu pasio.
- Telerau da i gwsmeriaid newydd.
- Ffoniwch neu edrychwch ar y wefan am brisiau.

Ffôn: (01267) 230 875
Symudol: 07896 891 733
rhodri@olew.co.uk
www.olew.co.uk

Cadwch y tocyd yma i gael 10% i ffwrdd
Rhodri Elias
Ffôn: (01267) 230875 Symudol: 07896 291733



Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a mwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHIWR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol. Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhegareon, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING

Y gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer bob achlysur:

Priodas; Penblwydd;
Bedydd; Angladd;
Cinio Busnes;

Digwyddiadau Maes,
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach

Cyswilt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎ 01570 481230 ☎ 07967 559683

Drefach a Llanwenog

Pen blwyddi Arbennig

Yn ystod yr haf dathlodd nifer fawr o bobl eu pen blwyddi: John Davies, Bwlchmawr yn 65 oed a Steffan Thomas, Rhiwson yn 18 oed. Gobeithio i chi eich dau fwynhau eich diwrnodau.

Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Yvonne a Daniel Evans, Tandderi ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto – merch fach Ffion Haf i Iona a Rhydian.

Priodas Dda

Dymunwn yn dda i Cerys Potter a Llyr Jones, Glynfaes a briododd ar Awst 11eg yng Nghapel y Groes, Llanwnnen. Dymuniadau gorau i chwi am flynyddoedd hapus.

Ysgol Llanwenog

Rydym fel Ysgol yn brysur yn paratoi gogyfer â phenwythnos dathlu 140 o flynyddoedd a fydd yn cael ei gynnal ar y 14eg, y 15fed a'r 16eg o Fedi. Bwriedir cael arddangosfa o hen luniau ac arteffactau yn yr Ysgol. Os oes gan unrhyw un o ddarllenwyr Clonc rhywbeth i'w fenthyg byddwn yn falch iawn o'u derbyn. Apeliwn hefyd i bawb i gysylltu â chyn-ddisgyblion yr Ysgol o bedwar ban y byd i ddweud wrthynt am y digwyddiadau. Gobeithiwn groesawu llu o gyn-ddisgyblion a llawer o'n ffrindiau o fewn y gymdogaeth i ymuno â ni yn ystod y penwythnos hanesyddol hwn. Erbyn hyn dylai'r ardal fod yn frith o bosteri yn rhoi manylion y digwyddiadau.

Treuliodd Dosbarth y Babanod ddiwrnod pleserus iawn ar daith yn Fferm Ffantasi yn bwydo'r anifeiliaid, gwyllo'r fuwch yn cael ei godro ac yn magu'r anifeiliaid anwes. Ar ôl cinio cafwyd llawer o hwyl a sbri yn gwneud gwahanol weithgareddau.

Ac ar ddiwrnod arall aeth y Babanod i Aberaeron er mwyn cymharu dwy ardal gyferbyniol. Galwom hefyd ym Mhlas Llanerchaeron lle cafwyd y profiad o chwarae rôl morwyn fach yn golchi dillad yn Oes Fictoria. Bu Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â'r Plasdy. Rydym yn ffodus iawn i gael profiadau amrywiol i'r plant bach yn ein hardal ni ein hunain.

Rhaid oedd i'r plant hŷn deithio ymhellach i gael eu profiadau hwy. Yn gyntaf aethant i'r Hen Dŷ Oes Tuduriaid/Stiwardiaid yn Llancafach Fawr lle'r oedd y tywyswyr i gyd wedi gwisgo yn nillad y cyfnod ac yn chwarae rôl yn y Plasdy. Aeth y plant o ystafell i ystafell gan glywed hanes y teulu Pritchard a ddaeth yn deulu 'byw' trwy'r profiad hyn. Ar ôl cinio blasus iawn a baratowyd gan Ms Eleri Davies ein Cogyddes

aeth pawb i ymweld â Phwll Mawr. Yma roedd cyn-lowyr y pwll yn tywys y plant o dan y ddaear ac yn disgrifio'r gwaith fyddai'r dynion, y menywod a'r plant lawr i bedair oed yn eu gwneud. Roedd y plant wedi synnu a rhyfeddu at y storïau ac yn falch iawn i ddychwelyd i Ysgol Llanwenog!

Cafwyd ymweliad gan y Nyrs Ysgol a fu'n rhoi sgwrs am lendid personol i'r plant. Yn ystod y bore bu'r plant yn golchi eu dwylo mewn hylif arbennig a'u rhoi o fewn peiriant. Byddent wedyn yn gweld a oeddent wedi golchi eu dwylo yn drwyadl neu beidio! Deallom fod hyd yn oed golchi dwylo yn lân yn dipyn o gamp!

Ymwelydd arall oedd Miss Mattie Evans, Athrawes Wyddoniaeth o Ysgol Gyfun Llambled. Cafodd groeso mawr gan y plant ac roeddent wrth eu bodd yn defnyddio'r offer arbenigol i arsylwi ac archwilio'r blodau.

Daeth Mrs Hazel Thomas i wneud 'Chocolate Crispies' gyda'r plant. Roedd pawb wrth eu bodd ac yn bendant roedd eu dwylo yn hollol lân ar ôl y gweithgaredd yma! Diolch iddi am roi o'i hamser prin i helpu'r plant i goginio cyn y diwrnod codi arian.



Hyfryd oedd croesawu'r Llywydd, Mrs Jean Jones, o Aberystwyth (Tandderi gynt), ynghyd â'i gŵr, a'i gefell Daniel a'i deulu i'n Diwrnod Hwyl eleni. Buom yn ddifrifol o ffodus i gael yr unig Sadwrn braf yn ystod y tymor! Cafwyd diwrnod ardderchog! Roedd y rhieni i gyd wedi gweithio yn galed a chafwyd amrywiaeth o stondinau a gweithgareddau. Diolch yn fawr i Gadeirydd y Pwyllgor Rhieni, sef Mr Gari Jones am drefnu'r Twrnament Pêl-Droed ac iddo ef a'i wraig am noddi'r holl wobrau.

Diolch hefyd i Mr Peter Davies am drefnu y Ras Hwyl ac iddo ef a'i wraig am roi'r medalau. Diolch hefyd i Mr a Mrs O'Keefe am roi'r tarianau. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i holl rieni, staff a ffrindiau'r Ysgol am helpu i sicrhau fod y dydd yn un llwyddiannus.

Siom o'r mwyaf oedd gorfod gohirio ein Mabolgampau Blynyddol

ond doedd dim dewis gan fod y tywydd mor anffafriol! Roedd y plant hefyd yn drist fod Chwaraeon y Cylch a Mabolgampau'r Cylch wedi eu diddymu. Edrychwn ymlaen fel Ysgol i gynnal ein Mabolgampau ar ddiwedd Mis Medi a chael cwmni Sefydliad y Merched. Mawr hyderwn y cawn Haf bach Mihangel eleni!!

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau yn yr Adran Gelf yn Sioe Cwmsychbant – Blwyddyn 3 a 4 – Fy Hoff Bryd Bwyd - 1af – Rebecca McEnery; 2il – Carys Jones; 3ydd – Anna Evans. Enillwyr Sioe Gorsgoch oedd – Dosbarth Derbyn - Fy Hoff Degan – 1af – Ben Lewis; Blwyddyn 1 a 2 – Hoff gymeriad teledu neu Hoff gymeriad o stori – 1af – Sion Davies; 2il – Ffion Evans; Blwyddyn 3 a 4 – O dan y Môr – 1af – Anna Evans; 3ydd – Carys Jones; Blwyddyn 5 a 6 – Yr Ardd Ddirgel – 2il – Steffan Evans; Llawysgrifen – Blwyddyn 5 a 6 – 1af – Rhian Jones.

Croeso cynnes i Chloe Marie Jones, Chloe Chanel Jones a Libby Waterman i'r dosbarth Derbyn ac i Nancy Doyle a fydd yn ymuno â Blwyddyn 3. Gobeithiwn y byddwch yn hapus yn ein plith!

Cymorth Cristnogol

Llanwenog a Llanwnnen

Diolch i'r gwirfoddolwyr a fu o gwmpas yr ardaloedd yma yn casglu o dŷ i dŷ yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol.

Daeth y cyfanswm eleni i £1,083.

Bydd yn bosibl ychwanegu dros £100 at hwn eto drwy Ad-daliad treth incwm y rhai a arwyddodd yr amlenni. Diolch am bob cyfraniad.

Y Gymdeithas Hŷn

Aeth taith Mis Awst â'r aelodau dros Glawdd Offa i Gastell y Waun, a hynny ar ddiwrnod braf. Er hynny, roedd olion llifogydd yr wythnosau cynt i'w gweld yn y canolbarth yn nyffryn yr Hafren.

Mae Castell y Waun dros 700 mlwydd oed, yn adeilad cadarn ac wedi bod yn gartref i deulu'r Myddletons ers diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, - yn wir mae disgynyddion yr hen deulu hwn yn dal i fyw mewn rhan ohono.

Wedi bod o gwmpas y castell, roedd yna ddigon o amser i fwynhau'r gerddi hyfryd a'r golygfeydd godidog. Teithio adref wedyn ar hyd ffordd arall drwy Gaerwys, i Aberystwyth am bryd o fwyd yn y Marine.

Anelu am ddyffryn Tywi wnawn ar Fedi 12fed, gadael Llambled am 9 o'r gloch.

CFFI Llanwenog

Er nad yw'r Clwb yn cyfarfod dros yr haf, mae aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog wedi

bod yn brysurach nac erioed. Roedd cwpwl o'r aelodau'n cystadlu yn y Sioe Frenhinol ar ddiwedd mis Gorffennaf, ac mi gafodd pob un lwyddiant mawr yno, yn arbennig Angharad Lewis a enillodd y trefnu blodau, a Menna Williams a enillodd y barnu defaid Suffolk dan 16 oed. Gwnaeth Siwan Davies ac Angharad Morgan Isaac yn dda iawn drwy ddod yn 6ed yn y gystadleuaeth goginio, a oedd yn help i Geredigion i ennill y marciau mwyaf yn y cystadlaethau Crefft, Coginio a Blodau, a Kevin Davies yn barnu defaid Suffolk. Hefyd yn ystod yr haf, cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol, lle etholwyd Rhian Bellamy fel y Cadeirydd newydd, ynghyd â thîm llawn o swyddogion eraill.

Mi fydd y Clwb yn aildddechrau ar Fedi'r 3ydd am 7.30 o'r gloch yn Ysgol Cwrtnewydd ar gyfer noson o joio yng nghwmni'r arweinyddion a chyfle i groesawu aelodau newydd. Bydd yr ail gyfarfod ar Fedi'r 10fed yng Nghenarth lle bydd cyfle i nofio, mynd i'r 'jacuzzi' a'r 'gym', a chael swper cyn mynd adre'. Bydd pawb yn cwrdd yn Nrefach am 6.30. Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno â'r Clwb eleni, felly os ydych chi rhwng 10-26 a mo'yn cyfle i neud lot o wahanol bethau a chael profiadau newydd a chael lot o hwyl trwy wneud hynny, cofiwch ddod!

Clwb Cledlyn Drefach.

Cynhaliwyd mabolgampau a diwrnod hwyl y Clwb ar Sadwrn 25ain. Gorfu i'r Clwb ohirio'r diwrnod ym Mis Mehefin oherwydd y tywydd anffafriol. Dyma brif ymgais flynyddol Clwb Cledlyn i godi arian i faes chwarae'r plant.

Bu'r diwrnod yn llwyddiant oherwydd llwyddodd i grynhoi y gymuned leol at ei gilydd a chodi arian i'r maes chwarae. Amcangyfrifir ein bod wedi codi tua £1,800 ac y mae hyn yn record i ni.

Carem ddiolch i bawb a gynorthwyodd ac a gyfrannodd tuag at lwyddiant y dydd. Mae'n dyled yn fawr i Mr a Mrs Daff Davies a'r teulu am ddefnydd o'r cae, ac i Mr a Mrs D Evans, Hendre'r Dail, ein llywyddion am y dydd.

Eglwys Santes Gwenog.

Llongyfarchiadau i gyn ddisgyblion o Ysgol Llanwenog ar dderbyn swyddi cyfrifol yn Ysgol Uwchradd, Llambled. – Siwan Davies, Prif ferch yr ysgol; Richard Milcoy, dirprwy brif fachgen; Ffion Davies a Sion Griffiths, capteiniaid chwaraeon. Dymunwn flwyddyn lwyddiannus iddynt.

Da yw clywed fod James Thomas. Paradwys, Prengwyn yn gwella wedi cyfnod yn ysbyty Glangwili. Dymunwn longyfarch James a'i briod Ann ar dathlu Priodas Aur yn

Drefach a Llanwenog

ddiweddar.

Dymuna Gillian Lewis, Gwarcoed, ddiolch i bawb am eu consŷrn wedi i'w merch Eirian gael damwain yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Cludwyd hi i adran losgiadau yn ysbyty Treforys, ond da yw clywed ei bod adre ac yn gwella'n foddhaol.

Mae llwyddiant Rhian Thomas, Llechwedd yn parhau. Yr oedd yn aelod o dîm merched Cymru a ddaeth yn drydydd mewn cystadleuaeth golff yn Helsinki. Bydd yn cynrychioli Cymru ym mis Medi mewn cystadleuaeth arall yn Dunbar yn yr Alban.

Ysgol Llanwenog yn dathlu 140 o flynyddoedd

Mae Ysgol Llanwenog yn brysur baratoi gogyfer â phenwythnos y dathlu a fydd yn cael ei gynnal ar y 14eg, y 15fed a'r 16eg o Fedi. Mae'r gan yr Ysgol hanes hir o ddigwyddiadau diddorol a phwysig ac wrth gwrs cenedlaethau o blant sydd wedi gwneud eu marc mewn llawer maes yn lleol a dros bedwar ban y byd. Erbyn hyn mae pumed genhedlaeth o ambell deulu yn ddisgyblion yn yr Ysgol. Cofiw'n hefyd am deuluoedd disgyblion Llanwenog a roddodd yr aberth fwyaf yn y Rhyfel Mawr a'r Ail Ryfel Byd. O'r adeg hyn cofiw'n hefyd am lawer o Faciw's a Lerpwl, Llundain a Swydd 'Kent' a fu yn Llanwenog yn y pedwar degau.

Bwriedir cael arddangosfa o hen luniau ag arteffactau yn yr Ysgol. Os oes gan rywun rhywbeth i'w fenthg byddwn yn falch iawn o'u derbyn. Apeliwn hefyd i bawb i gysylltu â chyn-ddisgyblion yr Ysgol lle bynnag y bônt i ddweud wrthynt am y digwyddiadau. Gobeithiwn groesawu llu o gyn-ddisgyblion a llawer o'n ffrindiau o fewn y gymdogaeth i ymuno â ni yn ystod y penwythnos hanesyddol hwn.

Ar y Nos Wener, fe fydd Noson Gymdeithasol gyda disgyblion yr Ysgol, cyn-ddisgyblion ac aelodau o wahanol fudiadau yn yr ardal yn rhoi eitemau amrywiol am hanes yr Ysgol. Ar y Nos Sadwrn fe fydd yna Gyngerdd Mawreddog gyda llawer o artistiaid enwog. Ar y Dydd Sul fe fydd cyn-ficer y plwyf, Y Parch. Dic Evans yn pregethu yng Ngwasanaeth y prynhawn yn yr Eglwys ac erbyn nos fe gynhelir y Gymanfa. Fe fydd yr Ysgol ar agor Dydd Sadwrn a Dydd Sul i groesawu pawb i weld yr arddangosfa a chael cyfle i grwydro'r hen gynefin a chael clonec a phaned. Fe fydd croeso mawr i bawb i ymuno â ni ar y penwythnos arbennig yma.

Clwb Cant yr Eglwys: £15, - Geoff Bone, £10. Ian Jones, £5. Bryan Lewis.

Cofied yr aelodau fod y flwyddyn ariannol ar ben a bod angen ail ymaelodi am swm o £10. Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno â ni.

Diolch

Dymuna Iona a Rhidian (Tandderi), ddiolch am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Ffion Haf ar Orffennaf 23ain.

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644



Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 42232

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

Arnold Davies Vincent Evans

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Ysgol Llanwenog yn Dathlu 140

Nos Wener Medi 14

CYNGERDD YN Y BABELLAR GAE PEN POM PREN

ARTISTIAID: Arweinydd Goronwy Evans

C.Ff.I Llanwenog, Llanwenog W.I., Lleisiau'r Werin

Disgyblion a Chyn Ddisgyblion Ysgol Llanwenog

Cyflwyno Cwpanau i gyn ddisgyblion dros 90 ac i'r disgyblion presennol

Dydd Sadwrn Medi 15, 10 - 3 o'r gloch

DIWRNOD AGORED YN YR YSGOL

Arddangosfa Ffotograffiau, Ffilm Dathlu Canmlwyddiant Desin

Plannu Coed, Llyfr Cofnodi Ymwelwyr

Cyfle i adael hanes ar ffilm, Llundain

Nos Sadwrn Medi 15, 7.30 o'r gloch

CYNGERDD MAWREDDOG NÔL YN Y BABELL

Llywyddion: Trevor Jennett, Betty Smith & Jean Jenkins (Faciw's)

Artistiaid: John Evans yn arwain

Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog, Coda, Deiniol Wyn, Gillian Elisa,

Gwenda a Geinor Owen, Gwawr ac Einir, Ifan Gruffydd, Ifan Lloyd,

Ocsiwn o lun gan Aerwen Griffiths, Tynnu Raffl

Dydd Sul Medi 16, 10 - 4 o'r gloch

DIWRNOD AGORED ARALL YN YR YSGOL

Gwasanaeth Arbennig yn yr Eglwys am 2.00 o'r gloch

gyda'r Parch Richard Evans Llanilar, yn Pregethu

Nos Sul Medi 16 - 7.30 o'r gloch

CYMANFA FODERN YN EGLWYS LLANWENOG

Llywydd Gillian Jones Meysydd

Arweinydd Alun Guy, Organydd Brian Jones

I archebu tocynnau ffoniwch 480396 neu 480733

Cefnogwyd gan Pwerdy Llanwenog

Yn eisiau - Ysgrifenyddwr!!

Cylfe i ennill £30

Wyt ti'n 14 oed neu'n hŷn? Wyt ti am ennill £30? Oes gen ti
ddiddordeb mewn ysgrifennu a hoffet ti weld dy erthygl yn cael ei
chyhoeddi ar wefan BBC Cymru'r Byd ac yn dy bapur bro lleol?

Beth sydd angen i ti ei wneud?

Ysgrifennu am:
Gigs
Digwyddiadau lleol
Ffilm, drama neu lyfr Cymraeg
Bandiau lleol
Chwaraeon
Unrhyw ddiddordeb arall

A chysylltu â:

Rhwydwaith Papurau Bro Antur Teifi


E-bost: cyswllt@papurbro.org Ffôn: 0845 6023912

Cyfeiriad: Rhwydwaith Papurau Bro, Antur Teifi, 23 Stryd Fawr,
Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7BH

Mae angen i'r erthygl fod o leiaf 400 o eiriau ac i unrhyw luniau fod yn
rhai gwreiddiol. Rhaid cofio mai ar wefan y BBC ac mewn papur bro y
bydd dy waith yn ymddangos a dylai natur a safon yr erthygl
adlewyrchu hynny. Mae'r BBC yn cadw'r hawl i olygu erthyglau a
gwrthod eu cyhoeddi os ydynt yn anaddas. Daw'r cynllun i ben fis
Ionawr 2008.

Cer i safle bbc.co.uk/lleolimi a fwy o wybodaeth.

Paid ag oedi - cysyllta nawr!



Llanwnnen

Gwellhad Buan

Mae nifer o drigolion y pentref wedi derbyn llawdriniaeth dros yr haf. Pob dymuniad da i Mrs Delia Evans, Beili Cadarn, Mrs Ann Hughes Cwmhendryd, Mr John Jones, Penbontpren a Ms Catrin James, Castell Du wedi iddynt dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan i chi gyd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr David John Jones, 3 Bro Grannell ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar Fedi'r ail.

Diolch

Dymuna Flo a John Beaufort Williams, Brynamlwg ddiolch i bawb am y cardiau a'r dymuniadau a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

Canmlwyddiant yr ysgol

Byddai Alice Davies, Alwyn neu John Beaufort Williams, Brynamlwg yn hapus iawn i dderbyn unrhyw luniau o'r ysgol neu'r pentref ar hyd y ganrif ddiwethaf ar gyfer y llyfr sydd ar y gweill i ddathlu canmlwyddiant Ysgol Gynradd Llanwnnen.

Llanwnnen ar y map!

Llongyfarchiadau mawr i Elin Jones, gynt o Tynllyn, ar gael ei hapwyntio yn Weinidog Amaeth a Chefn Gwlad y Cynulliad. Rydym i gyda yn ymfalchïo yn fawr iawn yn dy gamp Elin.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau gwresog i Luned Mair, Penynant ar ennill Tlws yr Ifanc yng Ngŵyl Fawr Aberteifi ar ddechrau mis Gorffennaf. Mae Luned wedi ennill sawl gwobr yn ystod y misoedd diwethaf.

Priodas Ruddem

Ar ddechrau mis Gorffennaf dathlodd John a Flo Williams, Brynamlwg eu Priodas Ruddem. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod a'r parti. Ymlaen yn awr i'r aur!!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mary, Haydn a Manon Richards, Lowtre ar farwolaeth ei chwaer, Ann o Gellan yn ddiweddar.

Pen blwydd arbennig

Dathlodd Mrs Ceinwen Roach, 5 Bro Llan ben blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

Ysgol Llanwnnen

Prynhawn dydd Llun, Gorffennaf 2il cynhaliwyd ein Ffair Haf blynyddol yn yr ysgol. Ar ôl glaw yn ystod y bore carwyd ymlaen gyda'r stondinau tu fewn i'r ysgol.

Agorwyd y ffair eleni gan Mr & Mrs Bill Cooper, Aberaeron. Bu Mr & Mrs Cooper yn cadw siop y pentref am flynyddoedd ac yn awr mae ganddynt wyrion yn yr ysgol. Yn ystod y prynhawn trosglwyddodd Cyng Gwen Davies, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanwnnen rhodd o £750.00 i'r ysgol tuag at ddathliadau Canmlwyddiant yr ysgol y flwyddyn nesaf. Hefyd, roedd Heather Price ar ran Fanc Barclays yn bresennol gennym yn ystod y prynhawn gan eu bod yn rhoi £ am £. Codwyd swm sylweddol i'r ysgol.



Yn y llun gweler Heather Price o Banc Barclays a Sasha Evans.



Yn y llun yma gweler Mr & Mrs Bill Cooper a Carwyn Rosser a Sasha Evans – 2 o ddisgyblion lleiaf yr ysgol.

Eleni, ar ddiwrnod gwlyb ofnadwy aeth ein trip blynyddol lan i'r gogledd. Yn gyntaf awd i Ganolfan Corris a mynd o dan ddaear i Labyrinth Brenin Arthur. Cawd cyfle wedyn i fynd o amgylch y siopau i siopa!! Gan fod y tywydd mor wlyb gorfu i ni fwyta ein cinio ar y bws. Yna awd ymlaen i Lanuwchllyn a mynd ar drên y Bala. Roedd hi'n braf ymlacio ar y trên a gweld Llyn Tegid ar ei orau. Daethpwyd yn ôl i orffen y dydd bant wrth gael pryd blasus o fwyd yn Llety Parc Aberystwyth. Gwnaeth pawb fwynhau'r diwrnod serch y tywydd gwlyb.

“Tri chynig i Gymro” – a dyma ddigwyddodd i Mabolgampau'r ysgol eleni. Gan fod y tywydd mor anffafriol drwy'r haf i ni eu cynnal, penderfynwyd ar y bore neu'r prynhawn cyntaf sych.

Ar ddiwedd tymor yr haf ffarweliwyd â 7 o blant - Nicholas, Emyr, Curtis Jay, Curtis Lyn a Tommy i Ysgol Gyfun Llambled a Danielle a Steffan Gillings i Ffynnonbedr. Gobeithio y byddwch i gyd yn hapus yn eich ysgolion newydd.

Hefyd, ffarweliwyd a dau Gynorthwy ydd Cynnal Dysgu sef Mineira Jones a Michelle Evans. Diolch i chwi eich dwy am eich cymorth.

Unwaith eto eleni bu'r ysgol yn

cefnogi'r sioeau ag Eisteddfod leol.

Sioe Llambled. Llawysgrifen dan 8 oed Ellen Jones – 1af, Catrin Rosser – 3ydd, Llawysgrifen dros 8 oed Hannah Cooper – 2il, Emma Newton-Jones – 3ydd.

Ar ddydd Mercher, 8fed o Awst bu Mr Siôn Mason-Evans, ein Pennaeth yn siarad ym Mhabell y Cymdeithasau yn yr Eisteddfod Genedlaethol am y Cynllun arbennig sydd yn gweithio rhwng y pedair ysgol yma.

Diolch

Dymuna Mary, Haydn a Manon, Lowtre, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem yn ddiweddar o golli chwaer a modryb annwyl iawn. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, blodau a rhoddion eraill dderbyniwyd. Bu'r cyfan yn gysur mawr ar adeg drist.

Pencarreg

Caryl a Cwini yn Dathlu

Llongyfarchiadau mawr i Caryl Jacobs, Frondeg ar ei llwyddiant yn ennill y wobr gyntaf am arwain ei chasesg liw yn Sioe Llanbedr Pont Steffan.



Dywedodd y beirniad ei bod yn feistres ar ei gwaith yn rheoli Cwini gan ystyried taw dim ond 8 oed yw hi. Daeth yn drydydd hefyd am farchogaeth ei chasesg Shetland wen, sef “Cariad.”

Ar ôl cael y fath lwyddiant roedd rhaid mynd ar drot ymhellach i Sioe Gorsgoch, a wir dyma lwyddiant eto a Caryl yn drydydd yng nghystadleuaeth y ceffylau lliw.

Daeth Caryl ar garlam tua thre i osod y rhubanau hardd yn y seld i bawb eu gweld.

Tybed pa sioe fydd nesaf Caryl? Pob lwc i ti am y dyfodol.

Adferiad iechyd

Yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Andrew Morgans, Rhydowen. Da yw deall bod Andrew adref erbyn hyn ac mae am ddiolch i bawb a u mor garedig wrtho yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty. Roedd yr ymweliadau gan berthnasau a ffrindiau, y cardiau, y galwadau ffôn, heb anghofio'r rhoddion caredig wedi codi ei galon ac yntau yn gaeth dan y garthen ac yn methu mynd yn ôl ei arfer i'r sioe yn Llanelwedd. Gwella gloi.

Cellan

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Rhodri Thomas, Llaindeg ar ei dyweddïad â Llynau yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chwi hefyd yn eich cartref newydd yng Nghae Coedmor, Cwmann.

Caws a Gwin

Cafwyd noson lwyddiannus iawn o Gaws a Gwin yn Neuadd y Mileniwm Cellan yng

Ngorffennaf. Braf oedd gweld tyrfa faeth a chefnogaeth frwd. Dymuna Sefydliad y Merched Cellan a'r Pwyllgor Gwelliant Pentref ddiolch yn galonnog i bawb am gefnogi a chodi dros £2,000 i Gronfa Ymchwil y Galon ac i gwblhau tu allan i Neuadd y Mileniwm.

Dathlu



Codwyd swm o dros £1,000 i ddathlu pen blwydd Chris Longthorne yn 70 mlwydd oed. Yn hytrach nag anrhegion gofynnodd am gyfraniadau eto tuag at Ymchwil y Galon ac i gwblhau tu allan i Neuadd y Mileniwm. Braf oedd gweld cynifer yn cael hwyl ac yn codi arian at achosion teilwng iawn.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Anne Williams Glan-nant Coy ar y 10 fed o Awst wedi cyfnod hir o lesgedd. Estynnwn gydymdeimlad dwys â'r teulu oll.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan iawn i Sulwen Thomas, Llaindeg. Gobeithio y bydd yn teimlo'n well yn fuan.

Helfa Drysor

Cynhaliwyd helfa drysor blynyddol Sefydliad y Merched eleni yng ngofal Barbara ac Euros. Bu Avril, Dorian, Maggie a Hannah yn llwyddiannus ac edrychwn ymlaen at yr helfa'r flwyddyn nesaf.

Diolch

Dymuna Andrew, Amlyn ac Alwen Glan-nant Coy, Cellan ddiolch yn galonnog am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael a gasglwyd er cof am Anne i gronfa Nyrsys Meddygfa Talieisin, Llambled. Mae'r gefnogaeth oll wedi bod yn gysur mawr yn ein galar.

Llanybydder

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Wyn Thomas, Brynlllo Fawr ar golli ei dad ar ddiwedd mis Gorffennaf. Nid oedd Gwilym wedi derbyn yr iechyd gorau ers sawl blwyddyn bellach. Bu'r angladd yn Eglwys y Plwyf, Llanwenog ac yna rhoddwyd ei weddillion i orwedd yng Nghapel y Cwm.

Ymdddeoliad

Iechyd da ac ymdddeoliad hapus i Meurig Jacob, Gorwel wrth iddo ddathlu ei ben blwydd yn 65 oed yn ystod mis Awst. Byddwch yn rhydd nawr i fynd yn y garafan i bedwar ban y byd!!!

Diolch

Dymuna Hannilia a Philip Court, 1 Ceincoed Hill ddiolch i bawb am y cardiau, blodau, rhoddion a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas berl yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Meurig Jacob, Gorwel ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn Fawr.

Llangybi a Betws



Mawr yw diolch Ysgol y Dderi am garedigrwydd Mr a Mrs D Edwards, Carpet Corner, Llanbedr Pont Steffan am eu rhodd o cit chwaraeon cyflawn i ddisgyblion blwyddyn chwech. Cyflwynodd Gillian Edwards y cit i'r capten Dewi Uridge. Hefyd yn y llun mae Islwyn Rees, Athro Chwaraeon ac Ann Davies, Pennaeth

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Rowena Williams a'r teulu, Maeslyn ar farwolaeth ei gŵr yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn a phawb arall sydd wedi colli anwyliaid hefyd.

Diolch

Dymuna Rowena a Lynne Williams, Maeslyn, Llangybi ddiolch o waelod calon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, galwadau ffon, blodau, anrhegion a chyfraniadau tuag at Ysbyty Glangwili er cof am ŵr hoff a thad tymer sef Gwilym. Diolch i'r Cannon Williams am ei bresenoldeb a'i deyrnged ac i'r parch Eileen Davies am eu Gwaith bendigedig a'i chymorth i ni. Hefyd i bawb arall a gymerodd ran: i Gwilym Price ei fab a'i ferched am eu gwaith urddasol, i Gwyneth, a'r organyddes yn Eglwys Llanfair ac yn arbennig i'n cymdoges Alunda am ei help a'i chymorth i ni mewn cyfyngder. Hefyd i'r gwagedd yn y festri ym Maesffynnon am eu gwasanaeth clodwiw. Diolch yn fawr i bawb am y cyfraniadau sydd hyd yn hyn dros saith can punt.



Cydnabod ymdrech yn Ysgol y Dderi. Ar ddiwedd y tymor ysgol cyflwynwyd cwpanau am ymdrechion arbennig gan y disgyblion yn ystod y flwyddyn. O'r chwith - derbyniodd Billie Davies Gwpan Rhagoriaeth; Dewi Uridge yn derbyn Cwpan Gwaith Cartref a Tamsin Boothby yn debyn Cwpan Caredigrwydd.

D Aled Evans

Plymwr a Pheiriannydd Gwresogi



Gosodwr a Chynhaliwr

- Systemau gwresogi
 - Baddonau a chawodydd
 - Gwresogyddion mewn lloriau
 - Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio
- Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu 07966 592 183

Gorsgoch

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Enfys Hatcher, Cefn Hafod ar ennill y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fflint a'r Cyffiniau ar ddechrau mis Awst.

Pentrebach

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Rhian Jones, Pant-têg, Pentrebach [un o olygyddion Clonc] a Hywel Lloyd, Dôlgartheg, Aberaeron ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob lwc i chwi eich dau i'r dyfodol.

Rhifyn mis Hydref

Yn y Siopau

Hydref 4ed

Erthyglau i law erbyn

Medi 20ain

Newyddion i law erbyn

Medi 24ain

CefnGwlad.org
Yr Adnodd Gwledig - The Rural Resource

Cymorth AM DDIM i grwpiau cymunedol!

Gall CefnGwlad.org - Yr Adnodd Gwledig gynnig ...

... cymorth TG AM DDIM:

Cyngor cychwynnol (beth sydd arnoch ei angen, sut gall y dechnoleg eich helpu, ac ati) • Fforwm trafod preifat ar gyfer eich grŵp • Gwe-dudalen ar gyfer eich grŵp

... cymorth AM DDIM gyda digwyddiadau:

Gallwn drefnu neu hwyluso digwyddiadau ar eich rhan: Seminarau • Cynadleddau • Cyfarfodydd cyhoeddus • Ymgynghoriadau • Digwyddiadau crefft a thwristiaeth


... cymorth cyffredinol AM DDIM:

Ein gwefan • Defnydd o'n swyddfa yn Aberystwyth ar gyfer cyfarfodydd • Cymorth â gwaith ymchwil • Rhwydweithio • Prosiectau ffilm amrywiol

Am fanylion pellach ffoniwch (01970-625616), e-bostiwch (post@cefn gwlad.org) neu ewch i'r wefan (www.cefn gwlad.org).



Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen



‘Wel ‘na’r ‘steddfod ore to!’ - Eisteddfod y Rhuddem

Hoffwn ddechrau gyda’r llywyddion - gwir pob gair - roedden nhw yn arbennig ac os nad oeddech yn sylweddoli yn barod, roedd pob un ohonynt wedi cael gwahoddiad oherwydd eu cysylltiad uniongyrchol â’r Eisteddfod wreiddiol ddeugain mlynedd yn ôl, a’r rhan bwysig roeddent hwy, neu aelodau o’u teulu wedi ei chwarae yn sefydlu a datblygu’r Wyl i’r hyn y mae heddiw.

Bu Delyth Medi yn y gyngerdd agoriadol ar y Nos Wener yn sôn am ei dyddiau cynnar hi yn cystadlu ac yn byrllymu o hwyl wrth gofio am yr adegau difyr hynny, a’u rhieni, wrth gwrs, wedi bod ynghlwm â’r Wyl ers y cychwyn cyntaf. Yna ei brawd a’i chwaer yng nghyfraith, Dorian a Rhian, yn brif swyddogion yr Eisteddfod erbyn hyn ac yn gwneud gwaith tu hwnt o arbennig.

Yna Mrs Margaret Jones, Coedmor ar y Sadwrn - cawsom wledd yn ei chwmmi gyda’i haraith mor ddiwyll. Soniodd am ei diweddar Fam, Mrs Janet Lewis, sef Cadeirydd cyntaf y Pwyllgor Gwaith ‘nôl yn 1967, a’r hwyl a gawsent ar yr aelwyd yn Llyscerdd tra’r oedd Mrs Lewis yn ceisio cynghori a chadw trefn ar y swyddogion ifanc.

Mrs Meinir Jackson wedyn ar y nos Sul, yn Llais Llwyfan Llambled, yn sôn mor ddifyr fel yr oedd hi wedi cael y dasg o gyflwyno tusw blodau i Mrs Janet Lewis, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith yn yr eisteddfod gyntaf ac er iddi ddysgu ei haraith fer ar ei chof, pan gyrhaeddodd y llwyfan, aeth yn nos arni - ac ni ddaeth yr un gair o’i cheg! Yng nghanol yr hwyl roedd adegau teimladwy hefyd wrth iddi sôn mai yno ar ran y teulu yr oedd i anrhydeddu ei thad a’i mam, y diweddar Edwin a Beryl Jones, a wnaeth gymaint dros gyfnod o bymtheng mlynedd ar hugain i hyrwyddo a datblygu’r adran lenyddol gyda’r Babell Lân yn uchafbwynt blynyddol.

Wedyn ar y Llun, y Parch Goronwy a Mrs Beti Evans oedd yn derbyn yr anrhydedd o fod yn llywyddion. Cyfeiriodd Goronwy at y llun, o waith y diweddar Mrs Needham, sydd wedi addurno cefn y llwyfan yn flynyddol, a chadwodd y dorf ar gledd ei law wrth iddo fynd drwy’r blynyddoedd a’u cyffelybu â’r dŵr sydd wedi mynd dan y bont yn y llun. Ymfalchiai yn ei ddewis o swyddogion a’r ffaith fod Dorian fel is-ysgrifennydd wedi cymryd yr awenau oddi wrtho ac roedd yn amlwg yn gwbl hyderus fod yr eisteddfod mewn dwylo cadarn a diogel i’r dyfodol.

Bydd y gwasanaeth yn Brondeifi bore’r Sul yng ngofal y Parch Goronwy Evans a’r anerchiad cofiadwy am warchod ein treftadaeth ag Aled Hall yn canu ‘Iesu, Iesu, rwy’ti’n ddigon’ yn sicr yn aros yn hir ar y cof. Yna Llais Llwyfan Llambled ar y Nos Sul ac allan o 14 cystadleuydd yn y rhagbrawf, dwy o ferched ifanc o Geredigion yn dod i’r brig. Gwawr Edwards yn cipio’r Tlws a’r mil o bunnoedd, a oedd gyda llaw yn rhoddedig am y bedwaredd flwyddyn yn olynol gan Mr Jack Jones, Gellideg, ac yna Rhian Lois Evans yn ennill yr ail wobr o £500 a oedd yn rhoddedig gan Douglas Bros.

Nos Lun cynhaliwyd y Babell Lân. Ni ellir peidio â rhyfeddu at ddawn ein beirdd ifanc, a’r cymeriadau arferol yn disgleirio unwaith eto, wrth gwrs. Yna Meira Turner, enillydd y brif gystadleuaeth lefaru (ac enillydd cyson ar hyd y blynyddoedd) yn gadael y cwpan ar y bwrdd gan ddweud mai Eisteddfod Dathlu’r Rhuddem yn Llambled fyddai’r olaf un iddi gystadlu gan ei bod yn ymddeol.

Ond i mi, y Sadwrn ddaeth â’r uchafbwyntiau mwyaf cofiadwy oherwydd, wrth agor yr eisteddfod yn swyddogol, soniais am wneud cacen ddathlu a phan ofynnodd Rhiannon i’r plant bach a fu’n cystadlu o dan 6 oed i gydganu pen-blwydd hapus i’r ‘steddfod, roeddwn ar ben fy nigon. Hoffwn ddiolch i bawb a fu’n gymaint rhan o benwythnos mor lwyddiannus - boed stiwardiaid, swyddogion, beirniad, llywyddion, noddwyr, cynulleidfâ neu unrhyw un arall a fu’n gyfrifol am lwyddiant y penwythnos.

Cofiwch bawb am Gymanfa Ganu’r Dathlu yng Eglwys Soar, Llambled ar nos Sul 9fed o Fedi am 7.00 o’r gloch gyda arweinydd ynghyd â chyfeilydd dawnus ag adnabyddus, Trystan Lewis a Robert Nicholls a hefyd yr unawdydd, Kees Huysmans. Mynediad yn £4.00 a’r elw tuag at bwyllgorau lleol Ymchwil y Galon, y Cancr a Chlefed y Siwgrwr.

Yn dilyn y gymanfa ganu byddaf yn diosg fy het Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith ac yn ei throsglwyddo i Mrs Janet Evans ac wrth ddymuno’n dda iddi wrth ymgymryd â’r swydd carwn ddiolch i bawb am y cydweithio hapus ac am wneud fy nhyrnor o ddwy flynedd yn un cofiadwy.

Eryl Jones

Safon Eithriadol yn Eisteddfod y Dathlu

Tyrrodd y cystadleuwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt ar Benwythnos Gŵyl y Banc i Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen a oedd eleni yn Dathlu’r Rhuddem a bu’r tywydd braf yn goron ar y cyfan.

Agorwyd y gweithgareddau ar nos Wener gyda chyngerdd gwych. Fe’n cyfareddwyd gan berfformiadau arbennig y ddau unawdydd sef Aled Hall a Rhian Mair Lewis gydag Eirian Jones yn cyfeilio. Pleser pur hefyd oedd gwrandio ar y grŵp “Adastras” ynghyd â Chôr ABC o dan arweiniad Angharad Fychan a Louise Amery yn cyfeilio. Mwynhawyd gwledd ardderchog gan artistiaid o fri; dyma noson o ddiwylliant Cymraeg ar ei orau.

Eleni eto roedd y cystadlu cyfyngedig ar y dydd Sadwrn yn ôl y beirniad o safon eithriadol o uchel a phrawf o hyn oedd gweld nifer helaeth o’r plant a’r bobl ifanc leol yn cyrraedd y brig yn yr adran agored. Enillodd Eurion Jones Williams, Cwmann y Ddysgl Rhosynnau er cof am Mrs Ray Morgan i’r cystadleuydd mwyaf addawol o dan 16 yn yr Adran Gerdd ar y dydd Sadwrn am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Roedd cystadleuaeth “Llais Llwyfan Llambled” ar y nos Sul yn noson wefreiddiol. “Yr ydym yn llawenhau ac yn ymhyfrydu ein bod wedi denu 14 o gantorion ifanc ym mlwyddyn y dathlu,” oedd sylw Rhiannon Lewis, arweinydd deheuig y noson. Wrth draddodi’r feirniadaeth ar ran ei gyd feirniad Huw Rhys Evans, llongyfarchodd Brian Hughes yr Eisteddfod ar ddenu nifer o gantorion gorau’r wlad mewn cystadleuaeth mor safonol a thalodd deyrnged uchel i’r athrylith Jeanette Masochi am ei gwasanaeth amhrisiadwy fel cyfeilydd. Hefyd yn ystod y noson cyflwynwyd beirniadaeth y gystadleuaeth cyfansoddi geiriau ar gyfer Emyr Bedydd gan Arwel Jones ac yn ei absenoldeb, cyhoeddwyd mai’r buddugol oedd John Roberts, gŵr hynaws o’r Groeslon sydd dros ei 90 oed.

Roedd enillydd y Fedal Ryddiaith am erthygl bortread yn wyneb cyfarwydd i bawb yn y gynulleidfâ sef Ioan Wyn Evans o Gaerfyrddin, mab y Parch Goronwy a Beti Evans. Cipiwyd y Gadair gan 25 oed am delyneg mewn mydr ac odl ar y testun “Caethiwed” gan Lowri Evans o Beulah, Castell Newydd Emlyn gyda Sian Northey o Gricieth yn ennill y Goron am ddarn o farddoniaeth ar y testun “Lliw” neu “Lliwiau”. Cyflawnwyd camp aruthrol gan Guto Dafydd o Trefor ger Caernarfon, myfyriwr 17 oed o Goleg Chweched Dosbarth Meirion Dwyfor a’i fam yn enedigol o Bencader. Enillodd y Tlws Ieuencid i rai dan 25 oed am ddarn o ryddiaith ar y testun “Taith” a hefyd cipiodd y Gadair am saith englyn ar y testun “Byd Natur”. Dyma’r ail waith yn unig hanes yr Eisteddfod i fardd ifanc gyflawni’r dwbl. Llywiwyd y seremonïau gan Dorian Jones a seiniwyd y corn gwlad gan Cerith Morgan. Mwynhawyd cyflwyniad merched ysgol Ffynnonbedr o’r ddawns flodau yn fawr iawn i gyfeiliant Carys Lewis ar y piano. Delor James a Meinir Ebbsworth oedd yng ngofal y seremonïau dan 25 oed gyda disgyblion yr ysgol Gyfun yn cynorthwyo yn y Cadeirio. Roedd beirniad yr holl Adrannau yn rhyfeddu at safon uchel y cystadleuwyr ac yn canmol y trefnwyr am Eisteddfod gartrefol, hapus a chroesawgar.

Roedd yr arddangosfa Gelf a Chrefft yn werth ei gweld. Enillydd tlws arbennig yn yr Adran am yr eitem orau oedd Llywelyn Jones o Felinfach.

Agorwyd yr Eisteddfod ar y dydd Sadwrn gan Eryl Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a’r Maer y Cynghorydd Chris Thomas yn cyflawni’r swydd ar y dydd Llun.

I gloi’r cystadlu nos Lun roedd pawb wrth eu bodd yn gwrandio ar ddoniau disglair y llefarwyr a’r cantorion. Dyfarnwyd Kees Huysmans o Dregroes yn enillydd yr Her Unawd am yr ail flwyddyn yn olynol a Myra Turner o’r Waunfawr, Caernarfon yn gyntaf ar y Llefaru eto am yr ail flwyddyn olynol.

Diolchir o waelod calon i Dorian Jones yr Ysgrifennydd am ei ymroddiad a’i waith diflino, i’w briod Rhian y Trysorydd am ei chyfraniad pwysig hithau ac i swyddogion ac aelodau’r pwyllgorau ynghyd â phawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd er sicrhau Eisteddfod lwyddiannus. Yn olaf ond nid y lleiaf diolch yn ddiffuant i Eryl am ei harweiniad doeth a’i gwaith tawel tu ôl y llenni yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith.

Cyn troi tuag adref ar ddiwedd yr Eisteddfod, talodd Dorian ei werthfawrogiad yntau i Eryl ynghyd â swyddogion ac aelodau’r pwyllgorau am eu cydweithrediad hapus. Talodd ddiolch haeddiannol i Dylan Wyn a’r staff am ddefnydd o’r Ysgol unwaith eto ac am eu cefnogaeth barod. Ymlaen yn awr i’r Aur!

Janet Evans



Eisteddfod y Rhuddem

Canlyniadau'r cystadlaethau lleol

Unawd dan 6 oed 1. Elin Davies, Tyngrug Isaf, Cwmsychpant. 2. Elan Jones, Araul, Cwmann. 3. Huw Jones, Cilerwisg, Felinfach. 4. Mari Elen Lewis, Ty Cerrig, Cwmann. 5. Daniel Evans, Tyngraig, Silian. Llefaru dan 6 oed 1. Huw Jones, Cilerwisg, Felinfach. 2. Mari Lewis, Ty Cerrig, Cwmann. 3. Elin Davies, Tyngrug Isaf, Cwmsychpant. 4. Sara Elan Jones, Araul, Cwman. 5. Daniel Evans, Tangraig, Silian. Unawd 6 – 9 oed 1. Meirion Thomas, Tremallt, Rhodfa Glynhegog, Llambled. 2. Rhys Davies, Tyngrug Isaf, Felinfach. 3. Alaw Mair Jones, Cilerwisg, Felinfach. 4. Jasmine Davies, Pencarreg. 5. Morgan Ifan Lewis, Ty Cerrig Cwmann. Llefaru 6 – 9 oed 1. Twm Ebbsworth, Brynamlwg, Llanwnnen. 2. Mared Fflur Davies, Llety'r Dderwen. 3. Rhys Davies, Tyngrug Isaf a Meirion Thomas, Tremallt. 4. Jasmine Davies, Pencarreg. 5. Alaw Mair Jones, Cilerwisg. Llefaru 9 – 12 oed 1. Lowri Elen Jones, Glennydd, Stryd Newydd, Llambled. 2. Aron Davies, Silian a Gwawr Hatcher, Gorsgoch. 3. Meleri Davies Cwmsychpant. Unawd 9 – 12 oed 1. Lowri Elen Jones, Glennydd, Stryd Newydd, Llambled. 2. Gwawr Hatcher, Gorsgoch. 3. Dewi Uridge, Coedparc, Silian. 4. Meleri Davies, Cwmsychpant. 5. Aron Dafydd, Silian. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 12 oed 1. Amy Roberts, Valley Lodge, Llanfihangel ar Arth, Pencader. 2. Llion Thomas, Llanbedr P.S.. 3. Lowri Elen Jones, Glennydd, Llanbedr P.S. Unawd 12 – 16 oed 1. Elli Dafydd, Gwarffynnon, Silian. 2. Eryl Bradley, Maestir, Llambled. 3. Catrin Ann Davies, Llanybydder. Llefaru 12 – 16 oed 1. Guto Gwilym, Cwmann. 2. Elli Mair, Silian. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 16 oed 1. Eurion Jones Williams, Cysgod y Pin, Cwmann. Cyflwyno Rose Bowl Sialens Barhaol er cof am Mrs Ray Morgan i'r cystadleuydd mwyaf addawol o dan 16 oed yn yr Adran Gerdd Buddugol: Eurion Jones Williams.

Cystadlaethau agored (enillwyr lleol) Dydd Sadwrn

Deuawd dan 21 oed 1. Elli Mair a Hedydd, Gwarffynnon, Silian. 2. Enfys ac Elin, Maesycrugiau, Gorsgoch. Ymgom 2. Guto Gwilym ac Elli Mair, Llambled, Deuawd Emyr Agored 1. Enfys Hatcher a Elin Jones. 3. Hedydd ac Elli Davies, Parti Llefaru dros 14 oed 1. Sarn Helen (dan ofal Elin Williams Y Garn). Unawd allan o unrhyw Sioe Gerdd 1. Carys Griffiths, Fronddu, Cwrtnewydd. 4. Lowri Daniel, Cellan. Llefaru i Gyfeiliant 1. Lowri Daniel, Llysbarcud, Cellan. 2. Hedydd Davies, Silian. 3. Elli Davies Silian a Guto Gwilym, Cwmann. Canu Emyr dan 60 oed 1. Carys Griffiths, Fronddu, Cwrtnewydd. Unawd Gymraeg 1. Carys Griffiths, Fronddu, Cwrtnewydd.

Dydd Llun (enillwyr lleol)

Unawd dan 8 oed cydradd 2. Mared Fflur Davies, Temple Bar. Llefaru dan 8 oed 2. Alaw Mair Jones, Felinfach. Unawd 10 – 12 oed 1. Lowri Elen, Llambled. 2. Gwawr Hatcher, Gorsgoch. 4. Aron Dafydd, Silian. Llefaru 10 – 12 oed 1. Lowri Elen, Alaw Werin dan 12 oed 1. Gwawr Hatcher. Unawd Cerdd dant dan 12 oed 2. Gwawr Hatcher. 3. Lowri Elen. Unawd Merched 12 – 15 oed 3. Elli Mair, Silian. Llefaru 12 – 16 oed Cydradd 3. Guto Gwilym ac Elli Mair. Unawd Piano 12 – 19 oed 3. Llywelyn Jones, Felinfach. Llefaru o'r ysgrhythur dan 19 oed 2. Hedydd Davies, Silian, Cyflwyniad digri Agored 2. Guto Gwilym. Unawd Cerdd Dant 12 – 19 oed 3. Elli Mair. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd heblaw'r piano dan 12 – 19 oed 3. Llywelyn Jones, Felinfach. Darn Dramatig neu Fonolog 2. Guto Gwilym. 4. Elli Mair. Alaw Werin dros 19 oed 1. Lowri Daniel, Cellan. 2. Carys Griffiths, Cwrtnewydd. Y Brif Gystadleuaeth Lefaru dros 21 oed 2. Lowri Daniel.

Sioe Llambled

Y Canlyniadau

Cynnyrch Fferm – Cecil Jones, Cyffionos, Cross Inn. Special – Gareth Jones, Cilerwisg. Cynnyrch Gardd – E Williams, Llanon Special – Aeron Davies, Llainffynnon. Crefftau Gwledig – Andrew Jones, Pentrebach hefyd y Special. Crefftau Gwledig eto – Andrew Jones, Pentrebach. Special – Derick Ebbsworth, Pontypridd. Blodau – Gwyn Williams, Llanybydder hefyd y Special. Gosod Blodau – Mrs Bates, Llyshedd, Ffosyffin hefyd y Special. Clwb Blodau – Gareth Richards, Goedwig hefyd y Special. Coganio – Elli Mair, Gwarffynnon, Silian. Special – Eleanor Evans, Nantymedd, Llanfair. Gwinoedd – Islwyn Iago, Felinwynt, Aberteifi. Special – Nigel Jones, Llanidloes. Preserves – Lloyd Edwards, Maesnant, Penrhyncoch hefyd y Special. Gwaith Llaw – Iris Quan, Blaencwm, Llanfair. Special – Mrs Bladen, Llanybydder. Ffotograffiaeth – Dylan Lewis, Tycerrig, Cwmann. Special – Mr M H Bates, Llyshedd, Ffosyffin. Ysgolion cynradd Dan 5 – Tirion, 'Ysgol y Dyfodol'. 5 ac o dan 8 – Sally Rees, Ysgol y Dyfodol. 8 a throsodd – Arwel Jones, Penlon, Gorsgoch Ysgol Uwchradd – Megan Jenkins, Castell, Llambled. Addysg Arbennig – Zac Griffiths. C Ff I – Clwb Cwmann.

Sioe Llambled



Dylan Jones, C.Ff.I Cwmann, Enillydd Barnu Wyn Cigyddion dan 26 oed ac hefyd yn cipio'r cwpan am y pwyntiau uchaf yn adran C.Ff.I.



Yn ennill gwobr arbennig yn Adran Ysgol Uwchradd oedd Megan Jenkins, Castell, Llambled



Arwel Jones, Penlon, Gorsgoch yn ennill y pwyntiau uchaf dan 12 oed



Wayne Jarman, Llanybydder a "Dizz" y ci chwaraeon gorau



Pencampwraig Merlota oedd Tirion Lloyd ar gefn Charlie o Teifi Stud.



Plant Ysgol y Dyfodol, Cellan yn ennill y nifer uchaf o bwyntiau o dan 5.



“Dewch draw i de”

Hyfryd yw bod yn ôl yn y gegin ar ôl ‘hoe dros yr haf’. Beth am gydio yn rhai o ffrwythau'r haf sy'n dal o gwmpas o hyd.

Dyma gasgliad o rysetiau hawdd a hwylus i'w paratoi. Rhowch gynnig arnynt a rhowch wahoddiad i'ch ffrindiau i de. Hwyl!

Gareth.

Treiff Mango a Banana.

Cynhwysion.

- 5 llond llwy fwrdd o ‘condensed milk’
- 250 gm 9owns o iogwrt naturiol
- Mango mawr aeddfed wedi'i sleisio
- Dwy fanana fach wedi'u darnio
- 8 o fisgedi coconyt wedi'u darnio.

Dull.

Mewn powlen fawr cymysgwch yr iogwrt a'r condensed milk. Rhowch y mango, y fanana a'r iogwrt yn haenau mewn gwydrau parod i'w gweini ac ychydig o'r bisgedi drostynt.

Eirin gwlanog wedi'u pobi.

(Hyfryd gyda hufen iâ).

Cynhwysion.

- 8 o eirin gwlanog (Peaches)
- 2 llond llwy fwrdd o siwgr brown ysgafn
- Sudd dau oren
- 50 gms - 2 owns o fenyn
- Llond llwy fwrdd o naill ai syrup neu fêl
- 50gms – 2 owns o flawd ceirch (porridge oats).

Dull.

Trowch y ffwrn i 170°C 325°F Nwy 3. Hanerwch yr eirin a'u gosod ar waelod y ddisgyl. Gwasgarwch y siwgr a'r sudd oren drostynt. Coginiwch am 20 – 25 munud nes fod y ffrwyth yn dechrau meddal. Cynheswch y menynt a'r syrup mewn sosban ac ychwanegwch y blawd ceirch. Gwasgarwch y gymysgedd dros yr eirin a rhowch y cyfan yn y ffwrn am ddeg munud arall, nes bod y blawd yn troi'n euraidd a chrisp. Mwynhewch!



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partion



Rhian, Dylan, Nia a Marian, rhai o dîm golygyddol Clonc yn derbyn hyfforddiant InDesign gan Elgan drwy gynllun Prosiect Papurau Bro Ceredigion. Y bwriad yw ceisio gwella a chynnal ansawdd diwyg y papur drwy gysodi gan ddefnyddio cyfrifiadur yn hytrach na thorri a gludo papur.

Colofn Dylan Iorwerth

Hurt Bost

Mi faswn i'n sgrifennu llythyr at bennaeth Swyddfa'r Post ... ond does gen i fawr o awydd rhoi rhagor o fusnes yn ei ffordd ar hyn o bryd.

Does gen i fawr o awydd mynd at ei gownter newydd o yn y Co-op chwaith ... mae'r penderfyniad i symud yno ac anwybyddu barn pobol leol fel codi dau fys anferth arnon ni i gyd.

Yn y broses, mae busnes naturiol Gymraeg oedd yn perthyn yn naturiol i Lanbed wedi cael ei ddinistrio a'r criw croesawgar oedd

yn arfer stampio'r trwyddedau a thorri'r stampiau wedi chwalu i'r pedwar gwynt.

O bob ongl posib, roedd y penderfyniad yn un anghywir. Nid yn unig o safbwynt y gwasanaeth i bobol leol, ond o ran dyfodol masnachol y Llythyrdy ei hun hefyd. Sut maen nhw'n disgwyl llwyddo wrth fynd ati'n fwiadol i golli busnes?



Dydwn i ddim yn defnyddio llawer iawn ar y Swyddfa beth bynnag ond, o hyn ymlaen, mi fyddai i'n defnyddio llai. Heb fod eisio cefnogi 'Pavarotti' a'r criw, y rhyngwyd fydd hi bellach i adnewyddu trwyddedau.

Diolch byth fod swyddfa'r post yn Llanwnnen yn dal i ffynnu ar gyfer y pethau llai ond dydi'r rhan fwyaf o bentrefi'r ardal ddim mor lwcus. Colli busnes, nid symud busnes wnaeth penaethiaid y Post.

Mae'n newyddion drwg i lawer o bobol Llanbed hefyd. Roedd yr hen Lythyrdy o fewn cyrraedd pawb; mae'r Co-op dipyn pellach ... yn enwedig ar ddiwrnod glawog, oer. Hyd yn oed os bydd rhai yn cadw draw, dyn a wŷr faint o anhrefn fydd yna adeg prysurdeb Nadolig.

Y dewis arall ydi gyrru, wrth gwrs, ac ychwanegu ymhellach at ddefnydd ceir a llygredd a difrod i'r amgylchedd.

Mae'r penderfyniad yn nodweddiadol o lawer o dueddiadau'r dyddiau yma – mae pawb yn dweud eu bod yn credu mewn defnyddio llai o geir, mewn cynnal canol trefi a busnesau lleol ... ac wedyn yn gweithredu fel arall.

Mae'n ddrwg i Lanbed ei hun. Ar ôl colli siop bwysig fel BJ, dynnod arall ydi colli sefydliad oedd yn tynnu pobol i'r canol. A gwrthod cyfle i osod y Post oddi mewn i fusnes bach lleol, gan helpu ffyniant yr ardal.

Ychydig fisoedd yn ôl, roedd Cyngor Ceredigion yn talu am waith ymchwil i weld a oedd angen archfarchnad fawr. Piti na fedren nhw bellach wneud gwaith ymchwil er mwyn helpu busnesau lleol i ddatblygu yn y dre'.

Efallai y gwna'i anfon y llythyr yna wedi'r cwbl, er mai curo pen yn erbyn y wal fyddai hynny. Ond weithiau, fel y basan ni bron â dweud yn y Gogledd, mae'n werth taro'r pared ... i'r post gael clywed.

Rhoi traed ynddi

Mae cwmni Iaith yng Nghastellnewydd Emlyn wedi cael syniad da – dangos effaith gwahanol bethau trwy 'ôl troed', fel yr 'ôl troed carbon' yn achos yr amgylchedd.

Os ydech chi'n gwneud drwg i'r iaith, mae ôl eich troed yn fawr, fel petaech chi'n sathu arni. Os ydech chi'n gwrthod gwneud pethau i'w helpu, mae'r ôl yn fawr eto, un union fel petaech chi'n gwrthod ailgylchu neu arbed ynni.

Byddai'r ardal yma yn lle da i ddechrau. Faint o weithgareddau sy'n defnyddio dim ond Saesneg pan ddylen nhw fod yn defnyddio'r Gymraeg hefyd?

Faint o garnifalau a sioeau yn yr ardal sydd wedi bod â phosteri uniaith Saesneg hyd y lle ymhobman? Pam fod y cyhoeddi mewn digwyddiad ardderchog fel Gŵyl Fwyd Llanbed yn llethol o Saesneg?

Mi fedren ni edrych ar fusnesau hefyd. Sawl busnes naturiol Gymraeg sy'n llawn arwyddion uniaith Saesneg?

Ac mae pob un ohonon ni'n euog mewn gwahanol ffyrdd. Efallai y dylen ni edrych dros ein hysgwyddau bob hyn a hyn i weld faint ydi ôl ein traed.

Dydi dweud “dw i'n dymuno dim drwg i'r iaith” ddim yn ddigon bellach. Mae peidio â'i defnyddio hi bron yr un peth â'i gwrthod hi ... seis wyth wrth ochr seis deg.



Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder.

Annwyl blant,
Sut ydych chi i gyd?
Gobeithio eich bod chi wedi
mwynhau eich gwyliau Haf ac yn
barod i fynd nôl i'r ysgol. Braf oedd
gweld cymaint ohonoch wedi rhoi
cynnig arni y mis hwn eto. Mae
clod arbennig yn mynd i Tristan
Evans o Lanybydder, Miriam
Butcher o Gaerdydd, Bethan Eynon
o Lamed, Gwenllian a Heledd
Jenkins o Lanwnnen a Sophie Jones
o Lanllwni. Ond yn dod i'r brig y
mis hwn mewn cystadleuaeth agos
iawn, iawn mae Harry Miller, Rhos-
yr-Haul, 32 Penbryn, Llamed. Da
iawn a llongyfarchiadau mawr i chi
gyd. Wel, mae'n hen bryd i'r hen
Lincyn Loncyn bach roi traed yn
y tir a dadbacio fy nghês ar ôl fy
ngwyliau yn 'Steddfod Llamed.
Rwyf wrth fy modd yn mynd ar
dramp! Hwyl am nawr a chofiwch
roi cynnig ar liwio llun y mis hwn a'i
ddanfôn ataf erbyn 22ain o Fedi.

Hwyl am nawr,



Enw:

Cyfeiriad:

**Enillydd
y mis!**

Harry
Miller



WELSH COUNTRY FOODS Ltd

GAERWEN, YNYS MON

Eisiau ŵyn a hen ddefaid o bob math o bwysau yn ddyddiol



Eich manteision:


- Pris da pob amser
- Gwasanaeth gan ein swyddogion maes profiadol yn rhad ac am ddim
- Cwmni annibynnol yr MLC yn pwysu a graddio'r wyn
- Telir bonws o £1 yr oen am ŵyn sydd yn "Farm assured" o fewn y pwysau 15kg i 21kg a wedi graddio yn E2, E3L, U2, U3L, R2 a R3L.
- Telir bonws am ŵyn sydd yn graddio yn E2, E3L + 15c/kg yn ychwanegol a U2, U3L + 8c/kg yn ychwanegol
- Mae gennym enw da am dalu yn gyflym
- Cludiant am ddim i'r lladd-dy.
- Mae gennym sawl lle i gasglu'r stoc yn eich ardal chi.

Am werthu hen ddefaid ar eich fferm heb gostau?
Cysylltwch â'n swyddfa da byw yng
Ngaerwen:

- ☎ 01248 421111 (Est 100 a 102)
- Adrian Roberts 📞 07967 677479
- Cyd-lynnydd Da-Byw 📞 07967 987775

A oes diddordeb gennych mewn ymuno â'n
tîm profiadol o swyddogion maes –
galwch y Rheolwr da byw sef
Adrian Roberts am sgwrs anffurfiol.

Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen



Buddugwyr dan oed - Mari, Daniel, Elin (1af Unawd) Huw (1af Llefaru) ac Elan.



Unawdwyr gorau dan 9 oed - Rhys, Alaw, Meirion (1af), Jasmin a Morgan.



Llefarywyr gorau dan 9 oed - Alaw, Rhys, Twm (1af), Marek, Meirion a Jasmin.



Buddugwyr 9 - 12 oed - Meleri, Aron, Lowri (1af yn llefaru a chanu), Gwawr a Dewi.



Unawd Offerynnol dan 12 - Lowri (3ydd), Amy (1af), Llion (2ail).



Buddugwyr 12 - 16 oed - Eryl, Elliw (1af Unawd), Guto (1af Llefaru) a Catrin.



Carys Griffiths, Cwrtnwydd yn ennill Cwpan Yr Unawd Gymraeg; Cwpan Unawd allan o Sioe Gerdd; a Chwpan canu Emyn dan 60oed.



Enillydd y ddeuawd dan 21 oed gan ddwy chwaer Elliw Mair a Hedydd Davies, Silian.



Deuawd Emyn Agored - Cyntaf - Elin Jones ac Enfys Hatcher, Llanybydder.



Dwy ffrind, Gwenllian Llwyd, Talgarreg (dde) a Gwawr Hatcher, Gorsgoch. Gwenllian yn ennill y Cerdd Dant dan 12 a Gwawr yn ail. Gwawr yn ennill ar yr Alaw Werin a Gwenllian yn ail.



Enillydd Llais Llwyfan Llambod oedd Gwawr Edwards, Bethania a derbyniodd wobr o £1,000 a oedd yn rhoddedig gan Jack Jones, Maes y Llan, Llambod a thlws yn rhoddedig gan Mr a Mrs Twynog Davies.



Llefaru i Gyfeiliant - yr enillydd oedd Lowri Daniels, Cellan gyda'i chyfeilydd Robin Fuller.



Stondin Clonc wrth ochr cylch y ceffylau yn Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan eleni, gyda chydweithiad Posiect Papuau Bro Ceredigion.